

# Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

2019-2029



Cyngor Sir Gâr  
**Carmarthenshire**  
County Council





## **Rhagair gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol**

Mae gan Sir Gaerfyrddin rwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, y rhan fwyaf ohono'n wledig. Rydym yn cydnabod fod y rhwydwaith hwn o lwybrau a theithiau ynghyd ag arfordir y Sir, tir mynediad agored, parciau gwledig, parciau coetir, safleoedd picnic a gwarchodfeydd natur yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth sydd yn eu tro yn helpu iechyd y boblogaeth ac yn cefnogi busnesau lleol a'r economi leol.

Hefyd, mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus mwy gwledig yn creu cyfleoedd teithio cynaliadwy i ysgolion, mannau gwaith ac amwynderau a chyfleusterau lleol.

Rhaid cydnabod er hynny yr heriau o reoli rhwydwaith mor fawr a gwasgaredig yn ystod y cyfnod parhaus hwn o gyllid cyfyngedig a thoriadau i gyllidebau.

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) cyntaf ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfeiriad strategol clir ar gyfer rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Sir. Yn y 10 mlynedd ers ei gyhoeddi mae'r cynllun wedi helpu sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau er mwyn gwneud mwy o rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gael ac er mwyn gwella llwybrau blaenoriaeth ac ardaloedd mynediad cyhoeddus.

Golygodd hynny waith partneriaeth llwyddiannus gyda gwirfoddolwyr, Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill.

Mae'r CGHT diwygiedig hwn yn seiliedig ar ymchwil ac ymgynghori gyda nifer o randdeiliaid gwahanol a'r cyhoedd. Mae'n rhoi ystyriaeth i lwyddiannau a diffygion y cynllun cyntaf yn ystod ei gyfnod 10 mlynedd ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol i'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad, sy'n eu galluogi i barhau i adeiladu ar y lluo o ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r cynllun hwn yn uchelgeisiol wrth inni geisio gwneud gwelliannau pwysig i'n rhwydwaith mynediad cyhoeddus dros y 10 mlynedd nesaf. Diolchwn i bawb a gyfrannodd at baratoi'r CGHT newydd hwn, a bydd ei weithredu yn galluogi mwy o bobl i fanteisio ar ein cefn gwlad agored, arfordir a'r gwahanol atyniadau a busnesau lleol yn Sir Gaerfyrddin.



Y Cynghorydd Sir Hazel Evans

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol  
dros yr Amgylchedd



Y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros  
Ddiwylliant Chwaraeon a Thwristiaeth

## **Rhagair gan Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol**

Fel Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin, rwyf yn croesawu'r cyfle hwn i ysgrifennu rhagair ar ran Aelodau'r Fforwm. Bydd y cynllun hwn yn gosod yr agenda a'r nodau ar gyfer mynediad i Barciau Cefn Gwlad, Trefi a Phentrefi yn y Sir am y 10 mlynedd nesaf ac mae'n ddogfen bwysig ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod Lleol.

Mae mynediad i'r cyhoedd yn bwysig iawn, ac mae manteision pwysig o ran iechyd, llesiant a'r economi oll yn cael eu cysylltu â phobl yn defnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mannau cyhoeddus eraill yn Sir Gaerfyrddin. Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y mynediad hwn yn cael ei gynnal a'i wella trwy gydol oes y Cynllun hwn a byddem yn eu hannog i barhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cerddwyr, marchogion ceffylau, beicwyr a defnyddwyr hamdden eraill ar hyd a lled y Sir.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan y Fforwm i sicrhau bod amcanion yr Awdurdod yn cael eu cyflawni a thargedau'n cael eu cyrraedd.

Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i fynychu sesiynau'r Fforwm i wrando ar y trafodaethau a gofyn cwestiynau perthnasol ar yr argymhellion a wna i'ch Cyngor Sir. Os hoffech gael gwybod mwy am y Fforwm mae croeso ichi edrych ar wefan y Cyngor Sir lle y gwelwch gopiâu o gofnodion cyfarfodydd ynghyd â phob adroddiad blynyddol a gynhyrchir.

Cofiwch ddefnyddio eich hawl i sicrhau bod y Cyngor Sir yn gwrandao ar eich llais o ran mynediad trwy gysylltu â nhw a'r Fforwm.

Mark Hadley  
Cadeirydd  
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin



# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Rhagair gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol	2
Rhagair gan Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol	3
<b>1.</b> Cyflwyniad	6
<b>2.</b> Daearyddiaeth a Demograffeg Sir Gaerfyrddin	9
<b>3.</b> Y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus	11
<b>4.</b> Cyfleoedd Mynediad Cyhoeddus Eraill	14
<b>5.</b> Cynnal a Chadw	16
<b>6.</b> Gwelliannau	17
<b>7.</b> Adnoddau	18
<b>8.</b> Ymgynghori Cychwynnol	20
<b>9.</b> Y Fforwm Mynediad Lleol	21
<b>10.</b> Asesiadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	
a. Asesu'r Gwaith o Gyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) Blaenorol	22
b. Asesu Anghenion Cyfredol y Cyhoedd ac Anghenion Tebygol y Cyhoedd yn y Dyfodol	22
c. Deddfwriaeth, Cynlluniau a Pholisïau Cyfredol a Rhai sy'n Datblygu	30
d. Gwerthusiad o Gyflawnder – Cofnod o Gyfyngiadau	31
e. Crynodeb	33
<b>11.</b> Amcanion a Pholisïau a'r Cynllun Gweithredu	
a. Nodau	34
b. Polisiïau	35
c. Cynllun Gweithredu	39

## **Atodiadau**

Atodiad 1 – Ymgylgoreion y CGHT

Atodiad 2 - Y Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer Sir Gaerfyrddin

Atodiad 3 - Llwybrau Teithio Llesol ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy

Atodiad 4 - Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cymryd rhan mewn cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Atodiad 5 - Ymatebion i ymgynghoriad yr asesiadau

Atodiad 6 - Dadansoddi WORS

Atodiad 7 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2007-2017 - Adolygu camau gweithredu a pholisïau

Atodiad 8 – Deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau cyfredol a rhai sy'n datblygu

GELLIR GWELD ATODIADAU AR-LEIN AR WEFAN Y CYNGOR

[WWW.SIRGAR.LLYW.CYMRU](http://WWW.SIRGAR.LLYW.CYMRU)

FEL ARALL, GELLIR GOFYN AM GOPI CALED DRWY ANFON NEGES E-BOST AT [PROW@SIRGAR.GOV.UK](mailto:PROW@SIRGAR.GOV.UK), DRWY FFONIO 01554 742216 NEU DRWY ANFON CAIS DRWY'R POST AT:

YR UNED CEFN GWLAD,  
PARC COETIR Y MYNYDD MAWR,  
HEOL HIRWAUN OLAU,  
Y TYMBL, LLANELLI.  
SA14 6HU

## 1. Cefndir a Chyflwyniad

Yn 2007 cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) cyntaf. Roedd y CGHT yn ddogfen 10 mlynedd a luniwyd yn unol ag adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Roedd yn manylu ar gynllun Sir Gaerfyrddin ar gyfer rheoli, datblygu a gwella rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir yn strategol hyd at 2017.

Trwy gyfnod CGHT 2007-2017, llwyddwyd i wneud llawer i wella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad i'r camau gweithredu a'r polisiau a gyhoeddwyd yn y cynllun blaenorol dyfarnwyd cyllid CGHT i'r awdurdod bob blwyddyn. Cafwyd cyfanswm o £726,449 o gyllid CGHT rhwng 2008 a 2017 a oedd yn caniatáu i nifer sylweddol o'r camau a'r polisiau a gyhoeddwyd gael eu gweithredu'n rhannol neu'n gyfan gwbl.

Yn ystod cyfnod y CGHT diwethaf buom yn gweithio mewn 56 o gymunedau ac yn ystod y cyfnod hwn cafodd dros 300 o lwybrau eu gwella neu eu hailagor, cafodd cannoedd o ddarnau newydd o gelfi mynediad eu gosod a chafodd dwsinau o bontydd troed, yn amrywio o 3m hyd at 33m o hyd, eu hadeiladu ar y rhwydwaith. Roedd y gwaith a ariannwyd gan y CGHT hefyd yn cynnwys gwella arwynebau a systemau draenio ar draws y rhwydwaith a gweithgareddau hyrwyddo amrywiol.

O dan adran 60(3) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae disgwyl i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynnal adolygiad statudol o'i 'Gynllun Gwella Hawliau Tramwy' (CGHT) presennol cyn pen 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi ei Gynllun gwreiddiol.

Dywed canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016 fod rhaid i unrhyw Gynlluniau Gwella datblygol ystyried y canlynol;

- I ba raddau y mae Hawliau Tramwy yn bodloni anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol;
- Y cyfleoedd a ddarperir gan Hawliau Tramwy lleol ar gyfer ymarfer a mathau eraill o hamdden awyr agored a mwynhau ardal yr awdurdod; a
- Hygyrchedd Hawliau Tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill a chanddynt broblemau symudedd.

Rhaid i'r Cynllun Gwella gynnwys datganiad gweithredu yn amlinellu sut, fel Awdurdod, y gall Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) gael gwell rheolaeth ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy lleol a gwneud gwelliannau.

Mae Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) Sir Gaerfyrddin yn gorff statudol a sefydlwyd o dan adran 94 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Ei rôl yw cynghori'r Cyngor ar bob mater hamdden yng nghefn gwlad. Bu gan y FfMLI rôl ymgynghorol yn ystod y gwaith o gynhyrchu'r cynllun hwn a bydd yn parhau i gyfrannu at gyflawni unrhyw gamau gweithredi sy'n deillio ohono.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 yn amlinellu'r broses ar gyfer adolygu'r CGHT, fel y gwelir yn Niagram 1 isod.




Diagram 1: Summary of the ROWIP process and timetable

Mae rhai o'r camau gweithredu a'r polisiau a restrir yn y cynllun hwn yn ddyheadol. Mae ganddynt y potensial i gynnig manteision o bwys i gymunedau lleol a gwelliannau i'r rhwydwaith, ond mae'r gallu i'w cyflawni yn dibynnu ar dderbyn arian grant addas.

Mae Adran 11 o'r cynllun hwn yn cyflwyno, yn fanwl, y nodau, y polisiau a'r cynllun gweithredu a fydd yn llywio hawliau tramwy cyhoeddus a rheoli mynediad am y 10 mlynedd nesaf. Datblygwyd y rhain yn dilyn cam asesu proses y CGHT a chaiff y ffordd y cânt eu cyflawni ei hadolygu bob dwy flynedd i fonitro eu cynnydd.


Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus statudol am 12 wythnos ynghylch y fersiwn ddrafft o'r cynllun hwn, fel y nodir uchod (gweler y rhestr o ymgynghoreion yn Atodiad



1). Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ystyried yn llawn a, lle y bo'n briodol, mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i'r CGHT i adlewyrchu'r ymatebion hynny.

Mae'r broses o baratoi'r CGHT wedi'i chwmpasu gan Erthygl 2(a) o'r Gyfarwyddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol. Bydd angen cynnal Aseiad Amgylcheddol Strategol dim ond os bydd rhoi cynllun ar waith yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol. Cafodd y CGHT ei sgrinio yn erbyn y siart llif yn y ddogfen 'Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol' a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Ar ôl cwblhau'r ymarfer sgrinio hwn, mae'r Awdurdod o'r farn nad yw'r nodau, y polisiâu a'r camau gweithredu yn y CGHT yn debygol o arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol, felly rydym o'r farn nad oes angen Aseiad Amgylcheddol Strategol.

Mae CGHT Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu'r Sir gyfan ac eithrio'r darn (y Mynyddoedd Du yn bennaf) sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ar hyn o bryd ceir cytundeb asiantaeth rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n rheoli ac yn cynnal a chadw'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. O fewn yr ardal honno y CGHT perthnasol fydd yr un a gaiff ei baratoi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



*Ffin Sir Gaerfyrddin  
(gan gynnwys ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)*



## 2. Daeryddiaeth a Demograffeg Sir Gaerfyrddin

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol ble mae economi a thirwedd amaethyddol ardaloedd gwledig mawr yn cyferbynnu â'r ardal drefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, gan mai sir wledig yw hi gan fwyaf, mae'r dwysedd poblogaeth yn isel, sef 75.7 o bobl i bob cilometr sgwâr, o gymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae'r prinder poblogaeth hwn yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag y mae yn y de a'r dwyrain, lle y mae 65% o boblogaeth y Sir yn byw ar 35% o'r tir.

Mae prif ganolfannau trefol y Sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman. Mae Caerfyrddin (oherwydd ei lleoliad daeryddol canolog) fel arfer yn gwasanaethu anghenion ardaloedd gwledig y Sir. Mae nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig yn hunangynhaliol o safbwynt cyfleusterau a gwasanaethau; fodd bynnag, ceir aneddiadau eraill llai o faint sydd heb wasanaethau a chyfleusterau. Mae anghenion preswylwyr yn yr ardaloedd olaf hyn yn cael eu diwallu gan aneddiadau cyfagos fel arfer.

Mae Sir Gaerfyrddin yn enwog, ac yn haeddiannol felly, am ei harfordir godidog, ei haberoedd tawel, ei dyffrynnoedd coediog, serth a'i hucheldiroedd garw. Mewn sawl man yn y sir ceir clytwaith o goetiroedd a chaeau wedi'u ffinio gan gloddiau sydd, yn aml iawn, o bwysigrwydd hanesyddol. Mae'r rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn mynd drwy'r dirwedd sy'n cynnwys y cynefinoedd hyn. Mae harddwch naturiol y sir yn ffactor pwysig y mae'r diwydiannau twristiaeth a hamdden lleol yn dibynnu arno. Mae bioamrywiaeth felly'n hanfodol i lesiant corfforol, economaidd ac ysbrydol pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin.

Amlygir cyfoeth amgylchedd naturiol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin gan nifer y safleoedd a ddynodwyd i warchod a gwella eu pwysigrwydd o ran cadwraeth natur yn genedlaethol ac yn lleol: 7 Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar, 82 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (a 12 arall ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 5 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestrdig. Mae'r Sir yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i warchod a gwella gwerth pwysig o ran cadwraeth natur, yn ogystal â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol â nodweddion unigryw.

Mae pwysigrwydd treftadaeth adeiledig y sir yn cael ei danlinellu gan y 27 o ardaloedd cadwraeth, 470 o Henebion Rhestredig (nodweddion o ddiddordeb diwylliannol a hanesyddol sy'n amrywio o rai Cynhanesyddol i rai Ôl-ganoloesol/Modern) a'r nifer fawr o adeiladau rhestredig.

Mae amaethyddiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu'r dirwedd wledig, ac mae'r diwydiant amaethyddol, a ffermio llaeth a defaid yn arbennig, yn gwneud y Sir yn un o'r ardaloedd amaethyddol pwysicaf yng Nghymru. Caiff tua 203,700 ha o dir yn Sir Gaerfyrddin ei ddsbarthu'n dir amaethyddol, a dosberthir y rhan fwyaf ohono yn radd 3a a 4, gyda darn bach o dir gradd 2 yn ne-ddwyrain y Sir.

Ar ddyddiad sail y CDLI (2006) amcangyfrifwyd fod poblogaeth y Sir yn 178,043 gyda 78,213 o aelwydydd (Rhagfynegiad Llywodraeth Cymru 2006). Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru set o ragfynegiadau poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar ddata 2008; fodd bynnag, dangosodd y data diweddaraf yng Nghyfrifiad 2011 fod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 183,777 gyda 78,829 o aelwydydd.

Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol yn hŷn na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Tabl 2.1 Poblogaeth Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2011)

OEDRAN	SIR GAERFYRDDIN	CYMRU
0 i 4 oed	5.6%	5.8%
5 i 9 oed	5.3%	5.3%
10 i 14 oed	5.8%	5.8%
15 i 17 oed	3.8%	3.7%
18 i 24 oed	8.2%	9.7%
25 i 29 oed	5.2%	6.1%
30 i 44 oed	17.3%	18.6%
45 i 59 oed	20.9%	19.9%
60 i 64 oed	7.3%	6.7%
65 i 74 oed	11.1%	9.8%
75 i 84 oed	6.9%	6.1%
85 oed a throsodd	2.8%	2.4%
Oed Cymedr	42.3	40.6
Oed Canolrif	44	41

### 3. Y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Caiff pob Hawl Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin– llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd – eu cofnodi ar y Map Diffiniol a'r Datganiad Diffiniol a gedwir yn y swyddfa Mynediad i Gefn Gwlad. Mae esboniad llawn o'r Map a'r Datganiad Diffiniol fel y cofnod cyfreithiol terfynol o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Sir a sut mae'r Cyngor Sir yn rheoli ac yn diwygio'r cofnod wedi cael ei ddarparu yn Atodiad2. Mae'r Awdurdod yn defnyddio meddalwedd mapio digidol sy'n darparu fersiwn ddigidol o'r Map Diffiniol i reoli hawliau tramwy cyhoeddus o ddydd i ddydd. Mae'r wybodaeth ddigidol hon hefyd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ond er mwyn gweld y cofnod cyfreithiol gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i weld y copi caled o'r Map Diffiniol yn y swyddfa Mynediad i Gefn Gwlad.

Mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn darparu adnodd hamdden defnyddiol ar gyfer preswylwyr a phobl sy'n ymweld â Sir Gaerfyrddin fel ei gilydd. Maent hefyd yn cynnig mynediad diguro i gefn gwlad ac yn cynnig ffyrdd cynaliadwy o deithio trwy alluogi pobl i ddefnyddio dulliau trafniadaeth yn ddiogel yn hytrach na cherbydau modur.

Mae Tabl 3.1 isod yn darparu manylion am nifer a hyd llwybrau a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin, sef y trydydd rhwydwaith awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Tabl 3.1 Llwbrau'r Rhwydwaith a'r Hyd (Mawrth 2018)

Math o Lwybr	Nifer y Llwbrau	Hyd (km)
Llwybr Troed	2951	2198.0
Llwybr Ceffylau	136	164.8
Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig	88	77.9
Cilffordd Gyfyngedig	1	1.6
<b>Cyfansymiau</b>	<b>3176</b>	<b>2442.4</b>

Mae ein cyfrifoldebau statudol o dan y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnwys:

- Arwyddion a chyfeirbwyntiau ar gyfer llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd;
- Gofalu fod y Map a'r Datganiad Diffiniol, sef y cofnod cyfreithiol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn cael eu cadw'n gyfredol;
- Cynnal a chadw arwyneb Hawl Tramwy Cyhoeddus i safon sy'n briodol i'r pwrpas y caiff ei gadw ar ei gyfer;
- Cynnal a chadw pontydd dros gyrsiau afon naturiol;



- Cadw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar agor ac ar gael trwy sicrhau bod partneriaid yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae cyfleoedd Mynediad i Gefn Gwlad a gynigir drwy'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cyfrannu at fentrau iechyd a llesiant ac at wella ansawdd bywyd trigolion. Gan eu bod yn rhad ac am ddim i'w mwynhau, gallant hefyd hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

Yn ôl Astudiaeth Hamdden Awyr Agored Cymru (WORS) 2016-2017 caiff gweithgareddau o bob math eu mwynhau gan y bobl sy'n ymweld â chefn gwlad.

Dangosodd yr astudiaeth mai cerdded oedd y prif weithgaredd a gyflawnwyd gan bron i dri chwarter yr holl oedolion yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd gweithgareddau hamdden cymdeithasol hefyd yn boblogaidd iawn, ac roedd bron i draean y boblogaeth yn mwynhau cael picnic.

Tabl 3.2 Rhesymau Pam mae Pobl yn Ymweld â Chefn Gwlad (Astudiaeth WORS 2016-17)

Gweithgaredd	Canran yr oedolion a gymerodd ran 2016/17
Cerdded	71.4%
Picnic	31.3%
Mynd â phlant i chwarae yn yr awyr agored	31.1%
Gemau anffurfiol (e.e. ffrisbi neu golff)	19.8%
Dim un o'r rhain	19.5%
Rhedeg	16.9%
Gwyllo bywyd gwylt	16.2%
Beicio ar y ffordd	13.0%
Nofio awyr agored	12.6%
Beicio oddi ar y ffordd neu feicio mynydd	9.1%
Pysgota	6.5%
Chwaraeon dŵr eraill	4.8%
Dringo creigiau neu ogofa	3.6%
Chwaraeon cefn gwlad (saethu / hela)	3.5%
Marchogaeth ceffylau	3.0%
Gyrru neu feicio modur oddi ar y ffordd	2.9%

Gweithgareddau awyr agored eraill	2.9%
Chwaraeon dŵr modurol	1.5%
Ddim yn gwybod	0.2%

Mae'r rhwydwaith hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd Sir Gaerfyrddin drwy wariant uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y sir. Mae gwariant ar wasanaethau twristiaeth, offer, lletygarwch, teithio, parcio ac unrhyw nifer o wasanaethau cymorth eraill oll yn cyfrannu at yr economi leol.

Mae adroddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gyhoeddwyd yn 2013 yn dangos gwerth economaidd darpariaeth mynediad i gefn gwlad sy'n cael ei rheoli a'i hyrwyddo'n dda. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod Llwybr Arfordir Cymru, sy'n dilyn arfordir Cymru, wedi creu tua £16,000,000 o werth ychwanegol i economi Cymru (Effaith Economaidd Gwariant Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru ar Gymru 2013).



*Trwyn Telpyn*

#### 4. Cyfleoedd Mynediad Cyhoeddus Eraill

Yn ogystal â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus mae cyfleoedd gwerthfawr eraill i gael mynediad i gefn gwlad, megis:

**Tir Mynediad Agored** a ddynodwyd o dan Ddeddf DCGHT, yn cynnwys tir agored fel mynyddoedd a gweundir a 'thir comin cofrestredig'. Mae tua 7600 hectar (ha.) o Dir Mynediad Agored lle y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w dramwyo ar droed. Mae hyn hefyd yn cynnwys ardaloedd o 'dir mynediad agored penodedig' lle y mae tiffeddianwyr yn caniatáu mynediad agored. Un enghraifft yw Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu mynediad agored am ddim i'w hystad coetir a hefyd yn cynnig cyfleoedd mynediad caniatool ar gyfer beicio mynydd, marchogaeth a gyrru car a cheffyl.

**Rhwydwaith Ffyrdd Diddosbarth** sef tua 170 o Ffyrdd Diddosbarth (a elwir yn aml yn "Ffyrdd Gwyrdd") gyda hawliau cerbydol, yn cynnwys cyfanswm o tua 150 cilomedr o lwybrau sy'n bennaf yn rhai heb arwyneb, sy'n chwarae rôl arwyddocaol wrth ddarparu llwybrau hamdden ar gyfer pob defnyddiwr.

**Llwybrau beiciau** sydd wedi cael eu datblygu mewn ymateb i'r farchnad feicio sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gwneud datblygiadau sylweddol o ran gwella'r cyfleoedd i feicwyr gyda'r uchelgais o fod yn 'Ganolbwynt Beicio Cymru'. Mae creu nifer o lwybrau beiciau yn y Sir sy'n cynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Llwybrau Diogel yn y Gymuned hefyd wedi creu cyfleoedd i ddefnyddwyr eraill megis cerddwyr, defnyddwyr anabl a llai abl ac weithiau marchogion.

O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i nodi a gwella llwybrau i feicwyr a cherddwyr er mwyn sicrhau mai teithio llesol yw'r dewis mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byrrach ac er mwyn cysylltu safleoedd a chymunedau allweddol. Mae Atodiad 3 yn dangos nifer y llwybrau Teithio Llesol yn Sir Gaerfyrddin sy'n dilyn rhannau o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

- Categori A – Lôn feicio sy'n rhan o'r ffordd gerbydau, sef fel arfer strïbed 1.5m yn gyfagos i'r cwrbyn ochr agosaf.
- Categori B – Trac beicio – llwybr priffyrdd ar gyfer beicwyr nad yw'n cydgyffwrdd â'r llwybr troed cyhoeddus neu'r ffordd gerbydau. Llwybrau beicio/troed wedi'u rhannu, wedi'u gwahanu gan linell wen neu heb eu gwahanu.
- Categori C – Llwybrau beicio, llwybrau hamdden trwy dir agored, nid o reidrwydd yn gyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd ond efallai y cânt eu cynnal a chadw gan awdurdod.
- Ar y Ffordd – llwybrau wedi'u harwyddo ond yn defnyddio'r ffordd gerbydau arferol, dim gwahanu.



**Safleoedd Cyngor Sir Gaerfyrddin** sy'n bennaf yn eiddo i'r Awdurdod ac yn cael eu rheoli ganddo, yn cynnig mynediad hamdden gwerthfawr, yn aml i grwpiau defnyddwyr a chanddynt lai o ddarpariaeth yng nghefn gwlad yn gyffredinol, er enghraifft pobl ag anableddau corfforol a marchogion ceffylau.

**Mynediad Arfordirol** i'r blaendraeth sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd. Mae traethau fel Pen-bre, Marros a Phentywyn yn hygyrch i gerddwyr ac yn boblogaidd iawn ymysg marchogion. Hefyd, Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr llinellol o gwmpas arfordir Cymru a sefydlwyd rhwng 2007 a 2012 sy'n cynnig mynediad di-guro at arfordir Sir Gaerfyrddin ar droed, trwy nifer o gynefinoedd a thirweddau arfordirol. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei wella'n gyson gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod mor hygyrch â phosibl.

**Mynediad Caniataol** a ddarperir mewn sawl ffordd, megis trwy Gynlluniau Amaeth-Amgylcheddol Glastir, yn breifat gan dirfeddianwyr unigol neu dros eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn bennaf ar gyfer cerddwyr.

**"Ffyrdd Coll"** yw llwybrau sydd â hawliau cyhoeddus drostynt a oedd yn bodoli cyn 1949 ond nad ydynt yn cael eu cofnodi ar y Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd.



*Mynydd Llanllwni*

## 5. CYNNAL A CHADW

Wrth reoli'r rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin mae'r Cyngor yn gorfod cynnal a chadw arwynebau llwybrau a phontydd, arwyddbyst lle y maent yn gadael ffordd fetelog a sicrhau bod y llwybrau yn rhydd o rwystrau naturiol a dynol. Mae'r Cyngor yn gorfod sicrhau hefyd bod tîrffeddwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau, sy'n cynnwys cynnal a chadw celfi Hawliau Tramwy megis camfeydd a gatiau, a chael gwared â llystyfiant sy'n ymledu o ymylon Hawliau Tramwy neu oddi uwch iddynt.

Yn hanesyddol mae'r gwaith o gynnal a chadw Rhwydwaith Hawliau Tramwy ar lawr gwlad wedi bod yn brin iawn o gyllid ac adnoddau. Mae cynnal a chadw yn elfen hollbwysig ar gyfer Hawliau Tramwy – canlyniad esgeuluso gwaith strimio a chlirio rheolaidd yw'r angen am waith sylweddol i dorri coed/prysgwydd o lwybrau a phroblemau llawer mwy o safbwynt perchnogion a defnyddwyr.

Ers y CGHT cyntaf yn 2007-2017 mae sawl agwedd ar gynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi newid. O'r tri deg pedwar Cyngor Tref a Chymuned gweithredol gwreiddiol, chwech yn unig sy'n cyflawni'r un dyletswyddau erbyn hyn. Y prif ddull o gynnal a chadw ar hyn o bryd ac yn draddodiadol yw defnyddio'r Gwasanaeth Crwydrwyr. Cyflogwyd naw parcmon llawn-amser i gyflawni'r gwaith hwn, ond oherwydd cyfyngiadau cyllidebol cynyddol (gostyngiad cyffredinol o £149,132 yn y gyllideb cynnal a chadw reoladwy rhwng 2007/08 a 2017/18) mae nifer y parcmyr wedi cael eu lleihau erbyn hyn i bedwar.

Oherwydd hyn rydym erbyn hyn yn defnyddio contractwyr cymeradwy, yn rhan amser, i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith o glirio llystyfiant. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r parcmyr ganolbwyntio ar gydlynu gwaith gyda thîrffeddwyr a delio â'r materion mwy cymhleth.

Er mwyn diwallu anghenion trigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr â'r Sir orau, ac er mwyn bodloni dyletswyddau statudol y Cyngor Sir, byddai angen mwy o adnoddau. Anelwn at weithio'n agosach â Chynghorau Tref a Chymuned i'w hannog i chwarae mwy o ran yn y broses o ofalu am eu hawliau tramwy cyhoeddus lleol a helpu adnabod rhestr o'r prif lwybrau blaenoriaeth yn eu cymunedau.

Mae Atodiad 4 yn rhestru'r Cynghorau Tref a Chymuned a gymerodd ran, ynghyd â manylion am nifer yr Hawliau Tramwy sy'n cael eu cynnal a'u cadw yn eu hardaloedd.

Mae'n bwysig fod cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei ystyried wrth inni gynllunio gwaith cynnal a chadw neu welliannau. Caiff amseriad y cynnal a chadw a'r ffordd y caiff ei wneud ei ystyried yn ofalus mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir, er mwyn peidio cael effeithiau andwyol ar gynefinoedd neu rywogaethau a warchodir. Hefyd eir ati i chwilio am gyfleoedd i weithredu er mwyn gwella cynefinoedd a rhywogaethau.

## 6. GWELLIANNAU

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwelliannau ar y rhwydwaith wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r gyllideb Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyfyngedig ynghyd â'r grant CGHT blynyddol (sydd bellach wedi dod i ben), cyllid Llwybr Arfordir Cymru a chyfraniadau ariannol ychwanegol gan sefydliadau megis Cymdeithas Ceffylau Prydain a Carmarthenshire Riders.

Ers rhoi'r CGHT cyntaf ar waith a chyda chymorth y ffynonellau ariannu a nodwyd uchod sydd o leiaf wedi dyblu'r gyllideb effeithiol ar gyfer gwelliannau i Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mae llawer wedi'i gyflawni.

- Mae gwaith wedi cael ei wneud ar 1355 o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau eraill â mynediad i'r cyhoedd, sy'n cyfateb i 1272km o fynediad cyhoeddus a gellir rhannu hyn fel a ganlyn:
  1. 1,099km o lwybrau troed,
  2. 98km o lwybrau ceffylau,
  3. 46km o gilffyrdd
  4. 29km o ffyrdd diddosbarth
- Mae gwaith gwella wedi'i gwblhau ar:
  1. Llwybr Arfordir Cymru,
  2. Llwybrau Tywi, Teifi a Sant Illtyd
  3. Llwybr Calon Cymru
  4. Llwybr Cothi
- Mae CAMS, sef y pecyn meddalwedd Hawliau Tramwy, yn parhau i gael ei ddatblygu a'i wella a chaiff mwy o wybodaeth ei mewnbynnu neu ei chodi er mwyn cynhyrchu adroddiadau ystyrlon megis y rhai a gyflwynir i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfodydd chwarterol.
- Sefydlwyd 22 o Lwybrau'r Sir ac maent yn cael eu hyrwyddo drwy Ganolfannau Croeso a mannau eraill.
- Cafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth gynghorau lleol, cyrff cyhoeddus, mudiadau eraill, grwpiau tirfeddianwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud a bydd yr Awdurdod yn parhau i chwilio am arian partneriaeth er mwyn gwneud mwy o welliannau a gwella'r gwaith o hyrwyddo llwybrau a theithiau yn y Sir.

Wrth i'r gwelliannau hyn gael eu cwblhau, gydag amser bydd y tîm Cynnal a Chadw yn gallu rhoi mwy o sylw i faterion cynnal a chadw. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i waith cynnal a chadw digonol ar Lwybrau'r Sir a llwybrau eraill a hyrwyddir. Bydd yr angen am gynnal a chadw cynaliadwy yn dod yn fwyfwy pwysig dros gyfnod y Cynllun, ac mae'n ffactor allweddol y mae'n rhaid i'r CGHT roi sylw iddo, ar yr amod fod cyllid digonol ar gael.



## 7. ADNODDAU

Yn ystod y degawd diwethaf, er bod llai o arian ac adnoddau o ran staff cynnal a chadw ar gael (fel y nodwyd yn adran 6), mae cyfran y rhwydwaith sydd ar agor wedi cynyddu rhwng 2012 a 2017, gyda gostyngiad bach yn 2018, fel y gwelir yn nhabl 9.1.

Heb ystyried yr adnoddau, mae ein cyfrifoldebau yn aros yr un fath, er bod y maes gorchwyl wedi cynyddu yn sgil ychwanegu cyfleusterau megis Llwybr Calon Cymru a Llwybr Cothi fel dwy enghraifft. Cymerwyd camau i ddelio â'r rhan fwyaf o'r materion hyn, ond mae nifer yr adroddiadau a'r rhestr o geisiadau am waith cynnal a chadw yn parhau i dyfu wedi inni wella cysylltiadau gyda grwpiau defnyddwyr, Cynghorau Cymuned a'r cyhoedd.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy CNC sy'n golygu bod gan y llwybr cenedlaethol pwysig hwn ddigon o adnoddau ar hyn o bryd.

Mae'n hanfodol bod y gyllideb gyfalaf flynyddol o £50,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn parhau. Fe'i defnyddir yn arian cyfatebol ar gyfer grantiau ac i brynu deunyddiau, llogi offer a defnyddio contractwyr tymhorol ar gyfer gwaith prosiect llai cymhleth a gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Golyga hyn y gellir gwneud gwelliannau arwyddocaol i'r rhwydwaith er mwyn cynnig mynediad haws i bobl o bob gallu. O gofio'r amgylchiadau presennol bydd yn fwyfwy pwysig i annog a chefnogi Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd cyfrifoldeb am rai o'r prif lwybrau yn eu hardaloedd. Rhagwelwn ymateb cymysg i hyn, oherwydd bod Cynghorau Tref a Chymuned yn hanesyddol wedi arddangos cymysgedd o agweddau tuag at ymwneud â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy o fewn eu ffiniau.

Mae defnydd cynyddol o staff contract yn 2017- 18 er mwyn cwblhau rhaglen o waith clirio llystyfiant wedi galluogi'r parcmyn i ganolbwyntio ar gysylltu â thirfeddianwyr, cyflawni ein gofynion statudol a rheoli a chefnogi staff contract. Cafodd nifer y llwybrau a hyrwyddir ei leihau er mwyn canolbwyntio ymdrechion ac adnoddau cyfyngedig ar y llwybrau a chyfleoedd marchogaeth gorau yn y Sir a'u cynnal i safon uchel. Mae cynlluniau ar waith i wella ansawdd y wybodaeth ar wefan *Darganfod Sir Gâr* y Cyngor Sir er mwyn annog pobl leol i gerdded, beicio a marchogaeth ceffylau a chefnogi economïau lleol trwy dwristiaeth.

Bwriadwn weithio gyda gwirfoddolwyr i helpu arolygu'r rhwydwaith a chynnal tasgau syml gyda goruchwyliaeth gyfyngedig.

Ar y cyd â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad, gwneir mwy o ddefnydd erbyn hyn o system mapio digidol CAMS er mwyn cofrestru, blaenoriaethu a chofnodi'r holl waith a wnaed neu a gynlluniwyd ac mae ar gael i'w defnyddio gan fwy o staff nag o'r blaen. Mae'n hanfodol bod y system yn cael ei huwchraddio a'i gwella, ynghyd â darparu hyfforddiant parhaus i staff i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau posibl o CAMS.

Mae'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad, sy'n gyfrifol am reoli'r Map Diffiniol, cymryd camau gorfodi o ran y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a phrosesu gorchmynion

cyfreithiol, wedi cynnal niferoedd staff ers gweithredu'r CGHT cyntaf, ac eithrio cyfnodau lle bu llai o staff oherwydd nad yw swyddi gwag wedi cael eu llenwi.

Fel y nodwyd yn Atodiad 2, mae nifer sylweddol o orchmynion cyfreithiol sydd heb gael eu prosesu yn y tîm Mynediad i Gefn Gwlad sy'n dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd y gwasanaeth yn cael ei weithredu gan niferoedd isel iawn o staff. Mae'n anodd mesur yr adnoddau a'r amser sydd eu hangen i roi sylw i hyn oherwydd amserlen anrhagweladwy y broses gwneud Gorchmynion ynghyd â'r dyletswyddau statudol a gyflawnir gan y tîm.

Mae'r maes gorchwyl cynyddol a'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau a amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon hefyd yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael yn y tîm Mynediad i Gefn Gwlad ond gyda nifer presennol y staff mae cynnydd yn cael ei wneud o ran prosesu rhai o'r Gorchmynion cyfreithiol hîn yn ogystal â cheisiadau mwy newydd am Orchmynion, materion gorfodi ac adolygu'r Map a'r Datganiad Diffiniol yn barhaus.

Er gwaethaf yr her sylweddol o ran adnoddau, cyflawnwyd gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at 2017 fel y dangosir yn y tabl o ganlyniadau Dangosyddion Perfformiad isod.

Y Dangosydd Perfformiad (DP) blynyddol (5% sampl) yw'r prif ddull o gasglu data i gofnodi cyflwr cyfredol y rhwydwaith ers tro. O 2015 ymlaen nid oedd gofyniad statudol bellach i gynnal ein harolygon dangosyddion perfformiad blynyddol ond, ddwy flynedd ar ôl cael gwared â'r gofyniad hwn, cydnabu Sir Gaerfyrddin werth sylweddol y canlyniadau Dangosyddion Perfformiad a phenderfynodd aildechrau arolygon Dangosyddion Perfformiad o'r rhwydwaith o 2017 ymlaen er mwyn casglu gwybodaeth. Rydym yn bwriadu parhau â hyn bob blwyddyn yn amodol ar gael adnoddau digonol i gwblhau'r broses.

**Tabl 9.1: Canlyniadau Arolwg Dangosyddion Perfformiad (5% Sampl)**

Mesurau	% Pasio						
	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Agored, Hygyrch ac wedi'u Harwyddo (CMT/001 PI)	37.9	34.6	41.4	-	-	47.6	45.9
Agored a Hygyrch	52.2	50.8	53.2	-	-	59.3	52.2
Ar Agor	52.2	51.1	53.9	-	-	59.3	52.3

## 8. YMGYNGHORI CYCHWYNNOL

Ym mis Mawrth 2017 anfonwyd llythyrau ymgynghori cychwynnol at amrywiaeth o randdeiliaid i amlinellu'r camau y byddai CSC yn eu cymryd i adolygu CGHT Sir Gaerfyrddin.

Awdurdodau Lleol:

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys a Chyngor Dinas Abertawe.

Crynodeb o Randdeiliaid Statudol:

Awdurdodau Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Busnesau Twristiaeth, Fforymau Mynediad Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru

Pwrpas hyn oedd rhoi gwybod i randdeiliaid am fwriad CSC i adolygu'r CGHT a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny.



*Fannau Sir Gâr*

## 9. Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Chwaraeodd Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) Sir Gaerfyrddin rôl allweddol yn datblygu a ffurfio'r cynllun hwn, yn benodol mewn perthynas â'r nodau a'r polisiau.

Cynhaliwyd 4 prif gyfarfod ymgynghori â'r FfMLI mewn perthynas â'r CGHT newydd.

1. Cyflwyniad i'r broses ac i'r ymgynghorydd Capita a benodwyd i gynnal yr adolygiad
2. Gweithdy gyda'r is-bwyllgor i adolygu'r camau gweithredu a'r polisiau yn y CGHT blaenorol
3. Grŵp trafod i roi sylwadau ar y drafft cyntaf
4. Sesiwn adborth i fynd drwy'r ymatebion a gyflwynwyd yn dilyn yr ymgynghoriad 12 wythnos

Yn unol â chanllawiau LIC, mae CSC wedi ymgysylltu â'r FfMLI yn y ffordd ganlynol:

Canllawiau CGHT Llywodraeth Cymru	Y rhan a chwaraeodd y FfMLI
Cynorthwyo gyda deialog trwy gysylltiadau gyda sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.	Cynorthwyodd y FfMLI trwy ddarparu cysylltiadau lleol y dosbarthwyd deunyddiau ymgynghori iddynt.
Cyfrannu at yr ymarferiad casglu data gan gynnwys i ba raddau y mae Hawliau Tramwy Lleol yn bodloni anghenion presennol y cyhoedd a'u hanghenion tebygol i'r dyfodol.	Bu aelodau o is-bwyllgor CGHT y FfMLI yn cymryd rhan mewn adolygiad o gamau gweithredu a pholisiau'r CGHT blaenorol gan gynnig camau gweithredu a pholisiau newydd ar gyfer y CGHT diwygiedig.
Cynnig cyngor ar sut ellid gwella'r rhwydwaith i'r cyhoedd a phan mae unrhyw bryderon rheoli tir penodol.	Cynigiodd is-bwyllgor CGHT y FfMLI feysydd gwella a defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddatblygu camau gweithredu priodol yn y Cynllun Gweithredu.
Cynghori ar fater cysylltiol mynediad i gefn gwlad agored, yn enwedig pan allai llwybrau llinellol newydd fod yn ddymunol.	Mae'r FfMLI wedi nodi materion yn ymwneud â thir mynediad agored yn ystod cyfarfodydd rheolaidd y FfMLI ac ystyriwyd y wybodaeth hon wrth ddatblygu'r CGHT newydd.
Cynnig cyngor ar flaenoriaethu gweithredu.	Rhoddodd y FfMLI gymorth wrth ddiffinio'r camau gweithredu Uchel, Canolig ac Isel yn y Cynllun Gweithredu.
Cynnig sylwadau ar gynlluniau drafft a gyhoeddir.	Cafodd y FfMLI gyfle i roi adborth a sylwadau ar y Cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu.
Cynorthwyo gyda datrys anghydfodau rhwng sylwadau gwahanol pan gynhelir ymgynghoriad ar y cynlluniau.	Dim angen.



## **10. ASESIADAU'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

Yn dilyn y penderfyniad i lunio CGHT newydd, cynhaliwyd nifer o asesiadau i lywio a chefnogi'r ddogfen newydd.

### **a. Asesu'r Gwaith o Gyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)**

#### **Blaenorol**

Mae Adran 6 yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd yn ystod cyfnod CGHT 2007-2017 gyda chymorth y cyllid CGHT cysylltiedig a ddyfarnwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o bob un o'r Camau Gweithredu a'r Polisiâu a gynhwyswyd yn CGHT 2007-2017 i werthuso llwyddiant y gwaith o roi'r CGHT ar waith. Cwblhawyd y broses hon fel ymarfer mewnol yn gyntaf cyn ei hymestyn i is-bwyllgor CGHT y FfMLI lle cafodd y camau gweithredu eu hadolygu'n fras gan ystyried a oeddent yn addas ar gyfer y CGHT newydd. Cyflwynir y gwerthusiad hwn yn Atodiad 7.

Tynnodd y broses werthuso sylw at y camau gweithredu a'r polisiâu hynny a oedd yn realistig, yn unol â'r adnoddau a'r amser oedd ar gael. Roedd hyn wedi helpu i lywio'r camau gweithredu a'r polisiâu sy'n rhan o'r CGHT newydd.

### **b. Asesu Anghenion Cyfredol y Cyhoedd ac Anghenion Tebygol y Cyhoedd yn y Dyfodol**

Yn unol â Chanllawiau LIC cynhaliwyd cyfnod ymgynghori 12 wythnos er mwyn asesu anghenion defnyddwyr. Cyflwynir canlyniadau'r ymarfer hwn yn atodiad 5. Oherwydd y gyfradd gyfranogi isel yn yr ymarferion ymgynghori, roedd cadernid y data a gasglwyd yn wael ac felly nid oes fawr o werth iddo. Felly nid oedd y polisiâu a'r camau gweithredu a ddatblygwyd ar gyfer y CGHT hwn yn seiliedig yn helaeth ar y data hwn ond yn hytrach ar ddata cyhoeddedig arall oedd ar gael, cyfraniad y Fforwm Mynediad Lleol a gwybodaeth ac arbenigedd staff.

Mae Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (WORS) yn ceisio mesur cyfranogiad ac ymddygiadau mewn hamdden awyr agored gan oedolion yn byw yng Nghymru, gan gynnwys y manteision iechyd ac economaidd cysylltiol. Mae hefyd yn edrych ar agweddau cyhoeddus tuag at fioamrywiaeth, ynghyd â chamau y mae pobl yn eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd.


Hwn yw'r arolwg mwyaf o ymgysylltu cyhoeddus gyda'r amgylchedd gan bobl yn byw yng Nghymru, ac fe holwyd tua 6000 o bobl trwy gydol y flwyddyn dros bob cyfnod llawn o 12 mis. Mae'n cynnwys oedolion o bob oed a chefnidir sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Hyd yn hyn cynhaliwyd yr arolwg yn 2008, 2011 a 2014 a defnyddiwyd cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn i adnabod unrhyw dueddiadau ystadegol arwyddocaol mewn ymddygiad neu alw hamdden dros y cyfnod hwnnw.

Rhoddodd dadansoddiad o WORS olwg unigryw ar lefelau gweithgarwch, ymddygiad ac agweddau pobl yng Nghymru, a defnyddiwyd y wybodaeth hon i helpu i ffurfio a mireinio'r Cynllun Gwella hwn, fel y gwelir isod yn atodiad 6.

O fewn cyd-destun y Cynllun Gwella hwn mae arolwg WORS yn fframio rhai o'r prif heriau y mae CSC yn eu hwynebu o ran denu mwy o bobl i gefn gwlad. Gwyddwn fod gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio, fel y dangosir gan graff 9.1

**Graff 9.1: 2011 Oed y Boblogaeth**



Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn heneiddio. Rhwng 2001 a 2011 gostyngodd nifer y bobl rhwng 0 – 39 oed tua 3,500, a thros yr un cyfnod cododd nifer y bobl rhwng 40 ac 80 oed dros 9,000.

O fewn y grwpiau hyn cafwyd gostyngiad o 13% ar gyfer pobl rhwng 30 – 34 oed, a gostyngiad o 14% ar gyfer pobl rhwng 35 a 39 oed rhwng 2001 a 2011. Yn y grŵp oed 60 – 64 roedd cynnydd o 36%, tra bod nifer y bobl yn y grŵp oed 65 – 69 wedi codi 27% dros yr un cyfnod.

Mae'n bwysig fod y CGHT datblygol yn cynnwys cynlluniau a pholisïau er mwyn darparu ar gyfer y duedd hon. Hefyd, wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu mae'n bwysig deall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i gefn gwlad yn fwy rheolaidd.

## Rhwystrau

Yn ôl arolwg WORS, ar gyfer y sawl a ddywedodd nad oeddent wedi gwneud unrhyw ymweliadau yn y flwyddyn ddiwethaf, yr un rheswm mwyaf cyffredin (28%) oedd diffyg tybiedig o amser rhydd, a soniodd 24% am anabledd corfforol, 19% rhesymau iechyd eraill ac 19% henaint. Ar y llaw arall, dim ond 2% ddywedodd nad oedd unrhyw le iddyn nhw fynd iddo, a dywedodd 1.7% nad oeddent yn gwybod i ble i fynd.

Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng dynion a menywod a rhwng grwpiau oed gwahanol. Ar gyfer pobl hŷn (dros 65), y prif rwystrau oedd henaint (41%) ac anabledd corfforol (34%). Ar gyfer oedolion iau (16-44) y prif rwystr oedd diffyg amser (57%). Yn yr un modd, roedd menywod yn fwy tebygol o gyfeirio at anabledd corfforol a henaint fel eu prif rwystr, ac i ddynion y prif reswm oedd diffyg amser. I ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi bod yn yr awyr agored yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, y rheswm mwyaf cyffredin (46%) oedd tywydd gwael.

Mae arolwg WORS hefyd yn adrodd fod y rhan fwyaf o ymweliadau yn gymharol fyr; parodd 50% awr neu lai. Roedd y mwyafrif sylweddol (77%) yn ddwy awr neu lai.

Er na all y CGHT wneud llawer i ddylanwadu ar faterion yn ymwneud â diffyg amser neu'r tywydd, gellir datblygu camau er mwyn cyflwyno cyfleusterau i wella mynediad i'r henoed a phobl a chanddynt lai o symudedd. Hefyd, mae angen datblygu a chyflwyno cyfleusterau ac atyniadau sy'n annog pobl i aros yn hirach ar draws y Rhwydwaith Hawliau Tramwy.



*Pont Droed Bren Llanfair-ar-y-Bryn*

Mae'n rhaid i asesiad o anghenion yn y dyfodol ystyried anghenion corfforol gwahanol grwpiau defnyddwyr ar draws y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

### **Cerddwyr**

Mae pob cerddwr angen rhwydwaith sy'n hawdd ei ddefnyddio ac sy'n cynnwys arwyddion a chyfeirbwyntiau digonol a chlir lle y mae eu hangen. Mae hyn yn arbennig o wir i ymwelwyr gan nad ydynt yn aml yn gyfarwydd â'r ardal ac yn dibynnu ar Fapiau Arolwg Ordnans sy'n dangos pob llwybr fel pe baent yn glir ar y ddaear. Mae rhai'n penderfynu peidio mynd i gerdded ac mae hyn yn adlewyrchu ar y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned. Bu cryn bryder ynghylch nifer y llwybrau sy'n cael eu rhwystro gan lystyfiant yn gordyfu, celfi gwael, ffensys a phroblemau eraill. Mae trafodaethau manwl yn y Fforwm Mynediad Lleol wedi nodi fod camfeydd yn aml yn anaddas ar gyfer pobl oedrannus neu lai abl ac roedd yn well gan lawer gathau neu gathau mochyn gan eu bod yn haws eu trafod.

Cafodd gwerth y Rhwydwaith Hawliau Tramwy i anghenion beunyddiol y gymuned leol ei bwysleisio at ddibenion hamdden ac eraill. Mae'r rôl bwysig y gall rhwydwaith cwbl agored ei chwarae i'r diwydiant ymwelwyr a'r swyddi sy'n deillio ohono yn y Sir hefyd yn un o bwys. Mae'r Cyngor yn derbyn canmoliaeth a chwynion gan ymwelwyr â'r Sir, cwynion yn bennaf pan nad yw disgwyliadau ar y ddaear yn cyfateb i'r wybodaeth ddisgwyliedig o fapiau Arolwg Ordnans (AO) ac ati.

Yn ôl arolwg WORS 2016/17 cerdded yw'r gweithgaredd cefn gwlad mwyaf poblogaidd. O'r herwydd, mae'n bwysig darparu ar gyfer anghenion cerddwyr o fewn y Cynllun Gwella datblygol hwn.

### **Marchogion Ceffylau**

Mae gan farchogion ceffylau yr hawl i ddefnyddio llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a BOAT, sy'n rhoi mynediad iddynt at 6.7% o rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir. Fodd bynnag, nid yw'r mynediad wedi'i ddsbarthu'n gyfartal ar draws y Sir. Mae mynediad i geffylau oddi ar y ffordd yn arbennig o brin, ond ceir rhwydwaith o gilffyrdd, ffyrdd llai a llwybrau ceffylau yn Fforest Brechfa, sy'n creu cyfanswm o deithiau cylchynol o fwy nag 20 milltir.

Mae'r rhwydwaith marchogol yn ddarniog ac mae cysylltiadau ar ffyrdd prysur neu ffyrdd gwledig sy'n llwybrau tarw lleol yn eu gwneud yn fwy a mwy peryglus i farchogion ceffylau eu defnyddio oherwydd cyflymdra a niferoedd y traffig modurol arnynt. Gobeithir y bydd cael eu cydnabod yn ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed yng Nghynllun Cyflawni Diogelwch Ffordd Cymru yn gwneud y cysylltiadau hyn yn fwy diogel gydag amser gan fod cynnydd mewn traffig a datblygiad ger llwybrau ceffylau yn dangos bod tebygolrwydd y bydd mwy o angen am ddarpariaeth farchogol yn y dyfodol.

Mae marchogion ceffylau angen cyfleoedd marchogaeth lleol ond maent yn fodlon teithio gyda bocs ceffylau i ardaloedd pellach i ffwrdd neu i osgoi ffyrdd prysur. Maen debyg mai nhw yw'r defnyddwyr mwyaf bregus wrth rannu llwybrau gyda cherbydau oherwydd ei bod yn anodd rhagweld ymddygiad y ceffylau. Mae marchogion yn chwilio am lwybrau hanesyddol ac arwynebau naturiol heb eu selio sy'n cynnig golygfeydd godidog neu gysylltiadau rhwng cymunedau a mynediad i gefn gwlad, gyda chyn lleied o gathau ag y bo modd sy'n addas i geffylau ac yn haws eu trafod.



Mae marchogion yn gwella eu hiechyd personol, yn ogystal â chynnig budd economaidd ychwanegol i Gymru ar ffurf gwariant sy'n deillio o weithgaredd hamdden o'r fath.

Mae perchnogaeth ceffylau yn darparu a chefnogi gwaith i lawer mewn ardaloedd gwledig lle y mae mawr angen swyddi lleol - fel ffariers, milfeddygon, gorsafoedd petrol, iardiau coed, gwerthwyr porthiant, ffermwyr a'r iardiau lifrai lle y cedwir llawer o'r ceffylau hyn.

Cofnododd y Gronfa Ddata Geffylaidd Genedlaethol (2012) fod 34,748 o geffylau â phasbort yn byw yng Nghymru, 22,000 ohonynt yn Sir Gaerfyrddin.

Yn seiliedig ar ganfyddiad y Gymdeithas Masnach Farchogol Brydeinig fod perchnogion ceffylau yn gwario £3,600 bob blwyddyn ar eu ceffylau, golyga hyn fuddsoddiad blynyddol gan berchnogion ceffylau yn yr economi o £485 miliwn ac i Sir Gaerfyrddin o £79 miliwn.

Mae ymwelwyr marchogol yn gorfod cartrefu a bwydo eu ceffylau yn ogystal â'u hunain, sy'n dyblu gwariant y noson unrhyw ymwelydd arall â'r sir. Gan fod gennym nifer arwyddocaol o glybiau marchogaeth a merlod gweithgar a chanolfannau ar gyfer chwaraeon marchogol yn y sir, mae Sir Gaerfyrddin yn denu ymwelwyr marchogol o siroedd cyfagos a thu hwnt, ond gellid gwneud mwy i'w hannog i aros yn hirach, i fwynhau traethau, coedwigaeth a thiroedd agored.

## **Gyrwyr Car a Cheffylau**

Mae gan yrwyr car a cheffylau fynediad cyfreithlon at gilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig. Yn Sir Gaerfyrddin nid yw cilffyrdd yn addas ar gyfer gyrwyr car a cheffylau oherwydd yr arwynebau anwastad a'u cyflwr cyffredinol, sy'n golygu nad oes llawer o ddefnydd ohonynt. Mae ganddynt fynediad hefyd at rai o goedwigoedd CNC sy'n cynnwys Coedwig Crychan, sy'n rhad ac am ddim, ond codir tâl am fynediad tebyg i Fforest Brechfa, ac nid oes unrhyw fynediad i Goedwig Pen-bre er y cynhelir digwyddiad blynyddol llwyddiannus ym Mharc Pen-bre sy'n denu gyrwyr car a cheffylau o gryn bellter i ffwrdd. Polisi'r Cyngor yw peidio caniatáu mynediad i farchogion i'r Parc onid ydynt yn mynd i ddigwyddiad wedi'i drefnu. Rhaid ymgysylltu â grwpiau lleol er mwyn adnabod llwybrau addas i'w gwella a chaniatáu mynediad i dir sy'n eiddo'r Cyngor.

Gall gyrru car a cheffyl gynnig mynediad i gefn gwlad i ddefnyddwyr sy'n methu ei defnyddio mewn unrhyw ffordd arall neu sy'n anabl. Maent yn ddefnyddwyr lleiafrifol o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ac anabl y caiff mynediad newydd ei greu ar eu cyfer. Yn gyffredinol, mae gyrwyr car a cheffylau yn defnyddio ardaloedd oddi ar y ffordd a ffyrdd llai yn cael eu rhannu â defnyddwyr eraill.

## **Beicio**

Bu beicio yn ddull poblogaidd a chost isel o deithio yn Sir Gaerfyrddin, a daeth hynny'n fwy gwir wedi'r gwelliannau a wnaed i lwybrau sy'n rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, yn bennaf ar ei ddarnau oddi ar y ffordd. Gwnaed cyfanswm o 29 miliwn o deithiau yn ystod 2011 ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn g Nghymru, a dywedodd 85% o ddefnyddwyr eu bod yn teimlo'n fwy heini o'r herwydd.

Ym Mhafiliwn Pwll ar Lwybr Arfordir y Mileniwm, roedd mwy na 137,000 o ddefnyddwyr yn 2017, 74% ohonynt yn beicio a 26% yn cerdded. Ym Mhen-bre, denodd Camlas Waun Sidan dros 48,000 o bobl yn 2017, 54% ohonynt yn feicwyr a 46% yn gerddwyr.


Mae gan feicwyr yr hawl i ddefnyddio'r un Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar gael i farchogion ceffylau. Ymestynnodd Deddf Cefn Gwlad 1968 hawliau ar lwybrau ceffylau i gynnwys beicwyr, ond unwaith eto mae'r rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar gael yn y Sir yn gyfyngedig ac mae problemau ar rai cilffyrdd yn golygu fod y cyfleoedd yn gyfyngedig.

Mae'r defnydd o feiciau yn debygol o gynyddu y tu hwnt i'r rhwydwaith ffyrdd a gallai'r cilffyrdd/lonydd gwyrdd fod yn adnodd defnyddiol trwy gynnig llwybrau diogel ac ystyrion yn lle ffyrdd prysur.

Pan mae adnodd o'r fath yn cynnig cyswllt strategol neu gymunedol allweddol ac nad oes unrhyw ffyrdd tawel a diogel eraill ar gael, dylai unrhyw welliannau o'r fath i'r cilffyrdd a ffyrdd gwyrdd roi ystyriaeth i arwyneb cadarn a deniadol y gall pob math o feic ei ddefnyddio ar yr un pryd â'r defnyddwyr eraill. Pan mae priffyrdd tawel a diogel yn cynnig mynediad hawdd, byddai gosod arwyneb ar gilffyrdd a rennir yn llai o broblem ac ni ddylid ond ystyried caniatáu beiciau mynydd ar y cilffyrdd hyn. Felly, byddai'n fuddiol ystyried hierarchaeth o gilffyrdd a lonydd gwyrdd er mwyn bodloni anghenion amrywiol defnyddwyr.

## **Teithio Llesol**

Mae 10 tref Teithio Llesol ar draws Sir Gaerfyrddin. Yn gyffredinol mae 128 o lwybrau Teithio Llesol ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy. Mae Atodiad 3 yn dangos y llwybrau Teithio Llesol hynny sydd ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy.



*Parc Arfordirol y Mileniwm*

## **Defnyddwyr Cerbydau Modur**

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yn ei bapur ymgynghorol ar gerbydau a yrrir yn fecanyddol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn dyfynnu ffigwr gan gynrychiolydd grŵp defnyddwyr o tua 15,000 o yrrwyr cerbydau oddi ar y ffordd hamdden yn Lloegr a Chymru. Mewn ymgynghoriadau ar gyfer paratoi'r CGHT hwn, derbyniwyd sawl ymateb gan ddefnyddwyr cerbydau modur ac eraill â diddordeb yn y Sir. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys sicrhau bod y CGHT yn cydnabod hawliau'r defnyddwyr / marchogion /gyrwyr hyn i ddefnyddio a gyrru / marchogaeth ar hyd y llwybrau sy'n gyfreithiol ar gael iddyn nhw. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd economaidd y gweithgareddau hyn i'r diwydiant ymwelwyr ac y dylid annog gweithgareddau o'r fath yn y Cynllun.

Rhaid i holl ddefnyddwyr modurol y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus fod yn gwbl gyfreithiol i fod ar y ffordd a meddu ar drwyddedau gyrru, trwyddedau ffordd a thystysgrifau MOT ar gyfer eu cerbydau. Hefyd, rhaid i CSC barhau i annog darparu cyfleusterau oddi ar y ffordd pwrpasol, gydag yswiriant digonol ac yn ddiogel i farchogion / gyrrwyr eu defnyddio yn y Sir. Dylid darparu'r cyfleusterau hyn i ddefnyddwyr ffyrdd cyfreithlon ac fel arall fel ei gilydd.

Yn y Sir y prif adnodd sydd ar gael i fodurwyr hamdden oddi ar y ffordd yw ffyrdd a chilffyrdd sirol heb arwyneb. Gwnaeth y Cyngor Sir 5 Gorchymyn Rheoli Traffig (TRO) ac mae 3 arall yn cael eu hystyried. Gellir defnyddio Gorchymynion Rheoli Traffig i reoli llwybrau pan mae pryderon diogelwch yn codi, ond ni fyddant ond yn cael eu defnyddio pan roddwyd cynnig ar bob dewis posib arall.

## **Canŵ-wyr a chwaraeon padlo eraill**

Mae CNC wedi cadarnhau bod mynediad hamdden i ddŵr yng Nghymru yn rhan o faes gorchwyl y Fforwm Mynediad Lleol a'r CGHT ac felly, yn wahanol i'r CGHT cyntaf yn Sir Gaerfyrddin, dylid cydnabod ac ystyried mynediad i ddyfrffyrdd ar gyfer canŵ-wyr a chwaraeon padlo eraill wrth reoli mynediad yn y dyfodol.

Caiff chwaraeon padlo eu cydnabod yn gyffredinol fel gweithgaredd cadarnhaol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol a llesiant cyffredinol. Mae hefyd yn cyfrannu at yr economi ac mae'n cael effaith isel ar yr amgylchedd.

Yn ôl Canŵ Cymru, mae gwybodaeth am fynediad i ddyfrffyrdd yn un o'r prif ffactorau sy'n atal rhagor o bobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon padlo. Mae'r wybodaeth hon yn aml yn gyfyngedig oherwydd diffyg eglurder ynghylch hawliau cyfreithiol ar ddyfrffyrdd.

Mae hwn yn fater cymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei ddatrys drwy ddiwygio deddfwriaethol yn y dyfodol.

### c. Deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau cyfredol a rhai sy'n datblygu

Mae'n rhaid i'r CGHT ystyried y nifer o feysydd polisi eraill a'r darpariaethau deddfwriaethol sydd â themâu ac amcanion ategol. Dylai polisïau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, iechyd, llesiant a chadwraeth, i enwi ond ychydig, gael eu hystyried a dylai'r CGHT diwygiedig weithio ochr yn ochr â nhw yn y pen draw.

Mae'r polisïau a'r camau gweithredu yn y CGHT diwygiedig yn ategu ac yn cyfrannu at nodau ac amcanion sawl darn o ddeddfwriaeth Gymreig a'r DU.

Mae'r ddeddfwriaeth, y cynlluniau a'r polisïau cyfredol a rhai sy'n datblygu sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r CGHT newydd yn cael eu nodi yn Atodiad 8.



*Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig,  
Llanbydder*



#### **d. Gwerthusiad o Gyflawnder - Cofnod o Gyfyngiadau**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad o'r CGHT yn gofyn bod gwerthusiad yn cael ei gynnal sy'n asesu'r cofnod o gyfyngiadau a'r strwythurau awdurdodedig ar y rhwydwaith a chyflawnder y cofnod hwnnw. Dylai'r asesiad hwn gynnwys y prosesau sydd ar waith i'w hawdurdodi ac mae'n berthnasol ym mholsi presennol a pharhaus y Cyngor o ran mynediad lleiaf rhwystrol.

Yn y cyd-destun hwn, mae cyfyngiad fel arfer yn cyfeirio at gamfa neu gât ar y rhwydwaith sy'n cyfyngu ar hawliau'r cyhoedd, i bob pwrpas. Dylid cofnodi cyfyngiad, 'os na chaiff ei gofnodi, nid yw'r cyfyngiad yn bodoli' (Ridall & Trevelyan 2007) ac ar y sail honno dylid ei ystyried yn rhwystr heb ei awdurdodi.

Pwrpas y gwerthusiad yw rhoi sylw i 3 swyddogaeth allweddol;

- Rhoi gwybod i'r cyhoedd am y trefniadau lleol ar gyfer rheoleiddio cyfyngiadau;
- Cynnig darlun o arfer cyfredol ar draws Cymru; a
- Rhoi cyfle i awdurdodau ystyried eu gweithdrefnau ac, os oes angen, i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd.

Mae Datganiad Diffiniol Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn darparu gwybodaeth rannol o ran y cyfyngiadau ar Rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir.

Mae'r Datganiad Diffiniol presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a baratowyd o dan ddarpariaethau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949) yn cynnwys cyfyngiadau a gofnodwyd gan y Cynghorau Plwyf ac a gyflwynwyd i'r Awdurdod Lleol yn rhan o'r arolwg plwyf gwreiddiol. Mae ansawdd y wybodaeth a lefel y manylion a gyflwynwyd gan Gynghorau Plwyf yn ystod yr arolygon yn amrywio'n fawr iawn ac ni chynhwyswyd yr holl gyfyngiadau a strwythurau awdurdodedig a gofnodwyd yn y Datganiad Diffiniol terfynol. Mae hyn yn golygu bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng y cyfyngiadau cofnodedig a nodwyd yn y Datganiad Diffiniol a'r sefyllfa wirioneddol ar lawr gwlad ond roedd y wybodaeth a gofnodwyd yn rhoi sylfaen dda ar gyfer ein cofnod o gyfyngiadau.

Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol ynghylch cyfyngiadau at y Datganiad Diffiniol, yn bennaf trwy brosesau Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus a Gorchymyn Addasu a fu'n barhaus ers cyhoeddi Map a Datganiad Diffiniol cyfunol cyntaf Sir Gaerfyrddin. Mae hon yn broses barhaus sy'n cynyddu nifer y cyfyngiadau a gofnodir yn gywir yn Natganiad Sir Gaerfyrddin yn barhaus ond mae'r ddogfen yn bell o fod yn gofnod cyflawn o hyd.

Y cofnod mwy cyflawn o gyfyngiadau a geir yn Sir Gaerfyrddin yw'r data a gedwir ar system mapio digidol CAMS. Caiff gwybodaeth am y strwythurau ar y rhwydwaith ei mewnbynnu a'i diweddarau'n rheolaidd a defnyddir system CAMS yn arf rheoli o ddydd i ddydd. Gellir cymryd gwybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd o ran cyfyngiadau yn aml o CAMS a, phan mae data'r arolwg yn ddigon manwl, gall gynnig darlun cyflawn o gyfyngiadau'r rhwydwaith.

Caiff strwythurau/cyfyngiadau y tu allan i broses y gorchymyn cyfreithiol eu hawdurdodi o dan adran 147 Deddf Priffyrdd 1980. Mae'n rhaid i dirfeddianwyr a/neu reolwyr wneud cais i'r Awdurdod Lleol i gael caniatâd i godi cyfyngiad newydd ar y rhwydwaith.

Nid yw awdurdodi strwythurau trwy'r broses hon yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Diffiniol ond fe'u cedwir yn gofnod parhaol ar ffeil y llwybr unigol ac fe'u cofnodir ar system CAMS.



*Eglwys Llangathen*

## e. Crynodeb o'r Asesiad

Gan ystyried canfyddiadau'r asesiadau a gwblhawyd at ddibenion llywio CGHT newydd Sir Gaerfyrddin, mae'r nodau, y polisiau a'r tabl o gamau gweithredu a gynhwysir yn Adran 11 wedi cael eu datblygu.

Drwy asesu'r ffordd y cafodd y CGHT blaenorol ei roi ar waith, cawsom ein canfyddiadau cychwynnol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod cyfnod cynllun deng mlynedd. Amlygodd yr adolygiad lawer o ddangosyddion gwerthfawr i'w hystyried wrth benderfynu ar y camau a'r polisiau ar gyfer y CGHT newydd megis yr hyn sy'n realistig o ran cwmpas, sut y gall y cyllid sydd ar gael effeithio ar y gwaith o gyflawni'r cynllun a sut y dylid ysgrifennu camau gweithredu mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu meintioli. Cafodd tabl 2007 o gamau gweithredu a pholisiau eu hadolygu gyda'r FfMLI hefyd fel ymarfer ar wahân a oedd yn rhoi syniad da o'r hyn a oedd wedi bod o werth i ddefnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac felly y dylid ei gynnwys yn y cynllun newydd a pha gamau a pholisiau newydd y dylid eu hychwanegu i fodloni anghenion tebygol yn y dyfodol.

Cafodd anghenion cyfredol ac anghenion tebygol yn y dyfodol eu hasesu'n rhannol drwy ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Yn anffodus, nid oedd wedi darparu llawer o ddata cadarn oherwydd cyfranogiad isel yn yr ymarferion amrywiol. Roedd hyn yn rhoi safbwynt cul iawn ar yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi o ran cyfleoedd mynediad cyhoeddus a'r hyn y gallai fod ei angen yn y dyfodol. Gellid ystyried bod y data yn gefnogol i'r camau gweithredu a gynhwyswyd yn y CGHT newydd ond ni wnaeth fawr ddim i roi sylfaen i ddatblygu'r camau hynny. Rhoddodd ffynonellau cyhoeddedig a sefydliadau proffesiynol fel WORS a Canŵ Cymru ddata mwy cadarn a chynhwysfawr ar ddefnydd cyfredol y cyhoedd o'r rhwydwaith a'u hanghenion tebygol yn y dyfodol, sydd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r tabl o gamau gweithredu a chytuno ar ein nodau a'n polisiau yn y dyfodol.

Mae asesiad o ddeddfwriaeth a pholisi wedi dangos y lefel sylweddol o orgyffwrdd a'r hyn sy'n gyffredin rhwng nodau a pholisiau'r CGHT a'r amrywiol ddeddfau, cynlluniau a pholisiau sydd wedi'u cyhoeddi neu sydd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Mae themâu cyffredin megis llesiant, teithio cynaliadwy, iechyd a chadwraeth yn ymddangos ochr yn ochr â chydweithio a rhannu adnoddau. Mae'r asesiad hwn yn dangos mor bwysig ydyw bod y nodau, y polisiau a'r camau gweithredu a gyhoeddir yn y CGHT newydd yn cyd-fynd â gofynion adrannau eraill, yr Awdurdod cyfan a sefydliadau allanol yn ogystal â chydymffurfio â darpariaethau deddfwriaeth berthnasol. Dylai'r polisiau CGHT y cytunir arnynt yn ogystal â'r partneriaethau niferus a nodwyd yn y tabl o gamau gweithredu sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r gwerthusiad o gyflawnder o ran cofnod o gyfyngiadau Sir Gaerfyrddin wedi nodi gwendid amlwg yn y broses ffurfiol o gofnodi cyfyngiadau a strwythurau cyfreithlon ar y rhwydwaith. O ystyried y ddealltwriaeth gydnabyddedig na ddylai strwythur fodoli ar y rhwydwaith os nad ydyw wedi'i gofnodi, i bob golwg mae angen i awdurdodau lleol weithio tuag at gofnod cynhwysfawr o gyfyngiadau a strwythurau er mwyn cynnal a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol wrth iddynt fwynhau'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae polisi a cham gweithredu yn Adran 11 a fydd yn helpu i wella'r broses o gofnodi cyfyngiadau a chymryd camau gofodi mewn achosion o strwythurau anghyfreithlon. Fel y nodwyd eisoes yn y cynllun, mae rhai o'r camau gweithredu a'r polisiau a restrir yn y cynllun hwn yn ddyheadol. Mae ganddynt y potensial i wella mynediad cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn amodol ar sicrhau cyllid priodol drwy gydol y cyfnod o 10 mlynedd.

## 11. NODAU, POLISIŌAU A CHYNLLUN GWEITHREDU

Mae peth o'r Cynllun Gweithredu a'r PolisiŌau a restrir yn yr adran hon yn ddyheadol. Maent yn amlinellu'r gweithgareddau a'r mentrau y nodir eu bod yn werthfawr i Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad ac a fydd yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu os gellir sicrhau'r cyllid perthnasol.

Wrth adolygu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy, bu cyfle i grynhoi at ei gilydd y camau gweithredu a'r polisiŌau sy'n ymwneud yn benodol â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyda chyfleoedd mynediad ehangach cysylltiol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys isod.

Mae dadansoddiad o'r gwaith hyd yn hyn wedi arwain at gyfres o themâu a nodau sy'n gosod sail ar gyfer y CGHT.

### A) NODAU

**Nod 1:** Sicrhau bod y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cynnig mwynhad.

- A. Gwella Hawliau Tramwy
- B. Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy
- C. Gorfodaeth Hawliau Tramwy
- D. Mynediad i Bawb

**Nod 2:** Darparu map a datganiad diffiniol dibynadwy, cywir a chyfredol, sydd ar gael yn eang.

- A. Parhau i ddiweddarau'r Map Diffiniol
- B. Cynhyrchu Map Digidol Diffiniol
- C. Dilyn hynt hawliadau Ffyrdd Coll

**Nod 3:** Sicrhau bod y cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnig mwynhad.

- A. Parciau Gwledig
- B. Cefn Gwlad Agored/Tir Mynediad Agored
- C. Ardaloedd Picnic a Gwarchodfeydd Natur
- D. Llwybrau Teithio Llesol
- E. Arfordir a Choedwigaeth

**Nod 4:** Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl bartion perthnasol sydd â diddordeb er mwyn cael gwell cyfleusterau i gefn gwlad.

- A. Hyrwyddo Partneriaethau
- B. Gwirfoddolwyr

**Nod 5:** Hyrwyddo – cynnal a gwella ystod ac ansawdd gwybodaeth gyhoeddus ar fynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'i gwneud ar gael yn fwy eang mewn fformatau priodol.

- A. Cyffredinol
- B. Deunydd Cyhoeddusrwydd



## B) POLICIES

<b>POLISI 1</b>	Bydd cyfeirbwyntiau ar hyd llwybr yn rhan annatod o unrhyw gynllun gwella Hawliau Tramwy, ynghyd â chyfeirbwyntiau blaenoriaeth ar lwybrau y gwelwyd eu bod yn anodd eu dilyn gan ddefnyddwyr.
<b>POLISI 2:</b>	<p>Datblygu rhaglenni gwelliant wedi'u blaenoriaethu trwy ddefnyddio'r system sgorio briodol. Bydd systemau sgorio yn sicrhau cysondeb wrth flaenoriaethu ac mae rhoi ystyriaeth i'r meini prawf canlynol yn ofyniad lleiaf:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Dyletswyddau Statudol</li><li>b. Pryderon Iechyd a Diogelwch</li><li>c. Ystyried Llwybrau a Hyrwyddir</li><li>d. Grwpiau defnyddwyr nad oes digon o ddarpariaeth ar eu cyfer</li><li>e. Dyddiadau Cau Cyllido</li><li>f. Cefnogaeth gan Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned</li><li>g. Cefnogaeth y FfMLI</li><li>h. Lefelau uchel o gefnogaeth gyhoeddus</li><li>i. Ystyried amcanion ehangach y Cyngor Sir</li></ul>
<b>POLISI 3:</b>	Bydd rhagdybiaeth o blaid gadael arwynebau Hawliau Tramwy yn eu cyflwr athraidd / naturiol ac eithrio'r rhai a ddewiswyd yn llwybrau blaenoriaeth ar gyfer pobl a chanddynt symudedd cyfyngedig neu pan mae cyflwr y tir yn golygu fod rhaid gwneud newidiadau er mwyn cynnig mynediad rhesymol.
<b>POLISI 4:</b>	<p>Bydd y Cyngor yn gweithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir i wella mynediad i bawb trwy ddefnyddio'r "dewis lleiaf cyfyngol" ar gyfer pob newid i'r rhwydwaith ac agwedd ragweithiol tuag at welliannau ar rai llwybrau dethol. Bydd hyn yn cynnwys trefn bwlch, gât, ac yna camfa, yn amodol ar anghenion hanfodol rheoli stoc a chyfrifoldebau'r tîrfeddianwr ar gyfer y strwythurau.</p> <p>Nod rheoli mynediad fydd diwallu anghenion rheoli tîrfeddianwyr hyd y gellir yn ogystal â sicrhau cymaint o fynediad â phosibl i bawb, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd/nam ar eu golwg.</p>

<p><b>POLISI 5:</b></p>	<p>Pan wneir ceisiadau am gelfi newydd, fe fydd rhagdybiaeth y defnyddir cyn lleied o strwythurau ag y bo modd. Bydd strwythurau a ganiateir yn cydymffurfio â Pholisi 4 uchod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd strwythurau a awdurdodwyd yn cynnig y dewis lleiaf cyfyngol i ddefnyddwyr onid oes rhesymau rheoli stoc diamau dros ganiatáu dewis llai hygyrch.</li> <li>• Ar lwybrau cerdded fe fydd rhagdybiaeth o blaid defnyddio gatiau.</li> <li>• Ar lwybrau ceffylau fe fydd rhagdybiaeth o blaid gatiau ceffylau yn cynnwys cliciedi ceffylau.</li> </ul>
<p><b>POLISI 6:</b></p>	<p>Cynhyrchu Strategaeth Farchogol er mwyn hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygyrch at ddefnydd marchogol.</p>
<p><b>POLISI 7:</b></p>	<p>Datblygu rhaglenni cynnal a chadw wedi'u blaenoriaethu trwy ddefnyddio'r system sgorio briodol. Bydd systemau sgorio yn sicrhau cysondeb wrth flaenoriaethu ac mae rhoi ystyriaeth i'r meini prawf canlynol yn ofyniad isaf-derbyniol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Dyletswyddau Statudol</li> <li>b. Pryderon Iechyd a Diogelwch</li> <li>c. Ystyried Llwbrau a Hyrwyddir</li> <li>d. Grwpiau defnyddwyr nad oes digon o ddarpariaeth ar eu cyfer</li> <li>e. Dyddiadau Cau Cyllido</li> <li>f. Cefnogaeth gan Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned</li> <li>g. Cefnogaeth y FfMLI</li> <li>h. Lefelau uchel o gefnogaeth gyhoeddus</li> <li>i. Ystyried amcanion ehangach y Cyngor Sir</li> </ol>
<p><b>POLISI 8:</b></p>	<p>Llwbrau sy'n cynnwys hawliau mynediad cyhoeddus a phreifat – bydd CSC yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ôl y galw gan y cyhoedd a'u hanghenion yn unol â'r matrices a gafodd ei flaenoriaethu.</p> <p>Ni fydd hawliau preifat a/neu hawddfreintiau all fodoli ar y cyd â Hawl Tramwy Gyhoeddus yn ystyriaeth o ran cynnal a chadw.</p>
<p><b>POLISI 9:</b></p>	<p>Bydd CSC yn ystyried ceisiadau gan drydydd partïon i newid arwyneb Hawl Tramwy ar yr amod fod y dull yn un cydnaws a</p>

	chan ystyried ymrwymiadau cynnal a chadw ac adolygiad o'i effaith ar ddefnyddwyr eraill.
<b>POLISI 10:</b>	Bydd CSC yn gweithio'n adeiladol gyda thirfeddianwyr i ddatrys anghydfodau/materion Hawliau Tramwy Cyhoeddus cyn troi at gamau cyfreithiol.
<b>POLISI 11:</b>	Cadw CAMS yn gyfredol a rhoi gwybod am/arolygu pob mater gorfodaeth (e.e. delio â rhwystrau [naturiol/dynol], arwyddion coll/arwyddion camarweiniol, anifeiliaid fferm/tirfeddianwyr peryglus ac ati) yn unol â'r Protocol Gorfodaeth.
<b>POLISI 12:</b>	Bydd erlyn yn cael ei ystyried os yw pobl yn troseddu dro ar ôl tro, pan mae'r awdurdod yn cael ei rwystro rhag gweithredu'n uniongyrchol ar hawl tramwy neu pan mae tirfeddiannwr yn methu gwneud cais am ddargyfeiriad i unioni rhwystr penodol.
<b>POLISI 13:</b>	Adennill gan ymgeiswyr am gau dros dro gost lawn hysbysebu ac unrhyw gostau cysylltiol eraill i'r Cyngor.
<b>POLISI 14:</b>	Ni fydd gorchmynion dargyfeirio ond yn cael eu hystyried gan y Cyngor os yw'n amlwg mai dyna'r ffordd fwyaf cost effeithiol ac ymarferol o ddatrys problem ar Hawl Tramwy Cyhoeddus. Rhaid rhoi arwyddion clir ar lwybr dargyfeiriol cyn i'r Gorchymyn ddod ar waith a chyfrifoldeb y Tirfeddiannwr fydd talu cost y Gorchmynion os mai nhw yw'r achos gwreiddiol.
<b>POLISI 15:</b>	Cadw, adolygu a gwella (lle bynnag y bo modd a thrwy gytundeb gyda thirfeddianwyr) cyfleoedd addas, a nodwyd gan Grwpiau Defnyddwyr, ar gyfer mynediad i gefn gwlad ar gyfer pobl a chanddynt symudedd cyfyngedig ac amhariadau eraill.
<b>POLISI 16:</b>	Defnyddio matrices sgorio a gymeradwywyd i ddiffinio blaenoriaethau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth i feini prawf fel lechyd a Diogelwch, llai o faich cynnal a chadw, bygythiad o ddatblygiadau, budd i'r rhwydwaith, cefnogaeth wleidyddol a strategaethau/polisiâu ehangach y Cyngor.

<b>POLISI 17:</b>	Defnyddio matrices sgorio a gymeradwywyd i ddiffinio blaenoriaethau Gorchymnion Addasu Mapiau Diffiniol sy'n rhoi ystyriaeth i feini prawf fel oed y cais, ansawdd/dilysrwydd y cais, cefnogaeth wleidyddol, a'r bygythiad o ddatblygiadau a'r gwerth i'r rhwydwaith.
<b>POLISI 18:</b>	Bydd rhaid i ymgeiswyr dalu am gostau dargyfeiriadau/cau llwybrau ynghyd â chost gwaith sydd ei angen i agor y llwybr newydd.
<b>POLISI 19:</b>	<p>Dylid derbyn ac ystyried ceisiadau am Orchymnion y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn ac yn ddelfrydol dylid cael penderfyniad i wneud y Gorchymyn yn yr un modd.</p> <p>Ni fydd dargyfeiriadau'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ond yn cael eu caniatáu pan ellir profi fod rhaid dargyfeirio Hawliau Tramwy Cyhoeddus er mwyn i'r datblygiad fynd yn ei flaen a phan mae llwybr amgen derbyniol arall yn cael ei ddarparu cyn belled ag sy'n bosibl.</p>
<b>POLISI 20:</b>	Bydd unrhyw safle adeiladu sy'n rhwystro Hawl Tramwy yn cael ei ystyried yn rhwystr ac fe ymdrinnir ag ef o dan y polisi/protocol gorfodaeth.
<b>POLISI 21:</b>	Bydd y defnydd o lwybrau caniatol yn gyfyngedig ac ni fyddant ond yn cael eu datblygu os oes buddiannau byrdymor sylweddol ac os yw'r gwariant yn isel.
<b>POLISI 22:</b>	Gweithio'n agos ag is-adrannau eraill yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth a'r Gwasanaeth Hamdden a defnyddio cydweithio a chyd-gynllunio er mwyn sicrhau gwell gorfodaeth, cyllido, gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
<b>POLISI 23:</b>	Parhau i hyrwyddo ac annog defnydd cyfrifol o gefn gwlad a pharch i'r sawl sy'n byw a gweithio yng nghefn gwlad.
<b>POLISI 24:</b>	Parhau i annog pobl o bob rhan o gymdeithas i fanteisio ar gyfleoedd i fwynhau cefn gwlad gan ddefnyddio'r holl ddulliau hyrwyddo cyffredin er mwyn cyrraedd cymaint o bobl ag y bo modd.



## C. CYNLLUN GWEITHREDU

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. GWELLA HAWLIAU TRAMWY</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 1A:</b> Cynyddu canran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio ac wedi'u harwyddo'n dda trwy ail-agor a gwella isafswm o 100km y.f. (4.6% o'r rhwydwaith)	Uchel	£150k	Na Collwyd cyllid Hawliau Tramwy Cyhoeddus	2022	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 1B:</b> Cynyddu canran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio ac wedi'u harwyddo'n dda trwy ail-agor a gwella isafswm o 200km y.f.	Isel	£300k	Naddo	2029	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 2:</b> Ceisio cynnal dyraniad cyllideb Mynediad i Gefn Gwlad 2017 ynghyd â chwyddiant dros gyfnod 10 mlynedd y Strategaeth hon.	Uchel	£50K	le	2029	CSC

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<p><b>CAM GWEITHREDU 3:</b></p> <p>Sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei gynnal i'r safon uchaf posib ar y cyd â Phowys a Cheredigion gan ddefnyddio'r Swyddog Llwybr Arfordir a gyd-benodwyd i'r rôl, a defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i'r diben hwnnw. Ceisio gwella rhannau priodol i ddarparu mynediad i bawb.</p>	Uchel	£50k	le	2022	CSC LIC CNC Cyngor Sir Powys Cyngor Sir Ceredigion
<p><b>CAM GWEITHREDU 4a:</b></p> <p>Llwybrau ceffylau, Cilffyrdd a Ffyrdd Gwyrdd (ffyrdd diddosbarth) – gweithio gyda'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, y BHS a grwpiau defnyddwyr eraill i wella priffyrdd dethol, cilffyrdd, llwybrau ceffylau a thir mynediad addas arall ar gyfer defnyddwyr ar geffylau.</p>	Uchel	£32k	Na – dyfarnwyd £16k ar gyfer gwaith ar Gilffyrdd a Ffyrdd Diddosbarth. Nid oedd unrhyw arian penodol ar gyfer Llwybrau Ceffylau	2022	CSC BHS Grwpiau Defnyddwyr
<p><b>CAM GWEITHREDU 4b:</b></p> <p>Archwilio cyfleoedd i ddatblygu Llwybrau Marchogol rhanbarthol a llwybrau marchogol ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin wrth i fwy o arian gael ei ddarparu.</p>	Canolig	£15k	Na	2025	CSC BHS Grwpiau Defnyddwyr
<p><b>CAM GWEITHREDU 5:</b></p>					

Dylai Hawliau Tramwy y gellid eu defnyddio i gael mynediad hamdden i ddyffyrdd ar gyfer canwod a chychoed tebyg gael eu cynnal a'u cadw i alluogi hynny.						
--	--	--	--	--	--	--

<b>NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>						
<b>A. CYNNAL A CHADW HAWLIAU TRAMWY</b>						
<b>CAM GWEITHREDU 6:</b> Gwella perfformiad ar arwyddbyst er mwyn cynyddu'r defnydd o Hawliau Tramwy sy'n "Hawdd eu Defnyddio"	Uchel	£12.5k	le	2022	CSC Grwpiau Defnyddwyr	
<b>CAM GWEITHREDU 7:</b> Bydd y Cynnal a Chadw Cymunedol Blynyddol yn cael ei flaenoriaethu gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad. Bydd yr uned Mynediad i Gefn Gwlad yn cysylltu â Chyngorau Tref/Cymuned yn gofyn iddynt ddefnyddio eu grymoedd cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal eu cyngor.	Uchel	>£50k	Na Bydd cymorth gan Gyngorau Cymuned yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff y cam gweithredu hwn ei gyflawni.	2021	CSC Cyngorau Tref a Chymuned Fforwm Mynediad Lleol Grwpiau Defnyddwyr	
<b>CAM GWEITHREDU 8:</b> Chwilio am fwy o gyllid cynnal a chadw er mwyn creu rhwydwaith mynediad hirdymor, cynaliadwy ac o ansawdd uchel, ar y cyd ag awdurdodau eraill cyfagos yng Nghymru.	Uchel	£50k	Ddim yn berthnasol	2022	CSC, LIC CSP, BBNP CSA, CPT, CSC	

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<p><b>CAM GWEITHREDU 9:</b></p> <p>Gofalu fod yr holl Lwybrau Strategol a Llwybrau'r Sir sy'n cael eu hyrwyddo ar agor ac ar gael ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda, gydag arwyddion a chyfeirbwyntiau. Trefnu fod pob llwybr a thaith yn cael adolygiad blynyddol, gan roi ystyriaeth i ansawdd, addasrwydd, poblogrwydd a'r adnoddau sydd ar gael.</p>	Uchel	£10k - £50k	le	2022	CSC Grwpiau Defnyddwyr
<p><b>CAM GWEITHREDU 10:</b></p> <p>Ar y cyd â Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd Sir Gaerfyrddin a Grwpiau Defnyddwyr perthnasol eraill, gweithio i sicrhau bod yr holl Gilffyrdd/Ffyrdd Diddosbarth/Priffyrdd lle y cafodd hawliau cerbydol eu cyfyngu'n barhaol yn parhau i gael eu cynnal a chadw a'u cadw ar agor ac ar gael i ddefnyddwyr cyfreithlon eraill o fewn yr adnoddau sydd ar gael.</p>	Canolig	£10k - £50k	le – lle y bo modd	2025	CSC BHS
<p><b>CAM GWEITHREDU 11:</b></p> <p>Parhau i weithio tuag at darged o 100% rhwydwaith llwybrau cefylau ar agor a hawdd eu defnyddio yn y Sir.</p>	Uchel	£10k	le	2023	CSC BHS Grwpiau Defnyddwyr



Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>CAM GWEITHREDU 12:</b> Clirio a gwella cliffyrdd/"ffyrdd gwyrdd" addas, dethol wedi ymgynghori â Grwpiau Defnyddwyr ar yr amod fod cyllid yn parhau i fod ar gael.	Canolig	£16k	le	2021	CSC Grwpiau Defnyddwyr
<b>NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. GORFODAETH HAWLIAU TRAMWY</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 13:</b> Diffinio Protocol Gorfodaeth ar gyfer polisiau/gweithdrefnau er mwyn cadarnhau a diogelu hawliau'r cyhoedd pan mae trafod, negodi, ewyllys da a chydweithio wedi methu erbyn 2020.	Uchel	£18k	le	2021	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 14:</b> Defnyddio matrices sgorio a gymeradwywyd i ddiffinio blaenoriaethau gorfodaeth megis ystyriaethau lechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu trin yn deg ac yn brydlon ac yn unol â meini prawf a gytunwyd.	Canolig	£4k	le	2021	CSC

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. MYNEDIAD I BAWB</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 15:</b> Mabwysiadu polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol a dilyn egwyddorion "Trwy Bob Dull Rhesymol" gan ddefnyddio cyngor a chanllawiau priodol i wneud yr holl gynlluniau mynediad i gefn gwlad yn fwy hygyrch.	Uchel	£20k	le	2029	CSC Partneriaid
<b>CAM GWEITHREDU 16:</b> Ymgysylltu â grwpiau ymgynghorol perthnasol sefydledig fel Cynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfleoedd i uwchraddio'r rhwydwaith ar gyfer pobl ag anableddau a defnyddwyr eraill llai abl. Hefyd, cymryd camau pendant i adnabod a phenodi aelod o'r FfMLI i gynrychioli buddiannau ac anghenion defnyddwyr anabl, oedranus a llai abl.	Med	£2k	le	2024	CSC Fforwm Mynediad Lleol
<b>CAM GWEITHREDU 17:</b> Datblygu Polisi Marchogol yn unol â Pholisi 6 er mwyn hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygyrch at ddefnydd marchogol	Uchel	£6k	le	2022	CSC, BHS Busnesau a Grwpiau Defnyddwyr Marchogol

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 2: DARPARU MAP DIFFINIOL A DATGANIAD DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN EANG A. PARHAU I DDIWEDDARU'R MAP DIFFINIOL</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 18:</b> Gwella ar berfformiad 2007-2017 trwy brosesu cyfanswm o 40 gorchymyn y.f. hyd at y cam gwneud Gorchymyn (gan gynnwys Gorchymynion Llwybrau Cyhoeddus [dargyfeiriadau, creu llwybrau newydd, cau llwybrau] a Gorchymynion Addasu [hawliadau anghysonderau llwybrau, dileadau])	Canolig	£30k	le	2023	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 19:</b> Gwella perfformiad gwneud Gorchymynion blynyddol i 45-50 Gorchymyn y.f., a'r rhan fwyaf ohonynt yn Orchymynion Addasu Mapiau Diffiniol heb eu cwblhau.	Canolig	> £50k	Na	2021	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 20:</b> Cynnal adolygiad o'r costau priodol y dylid eu codi am orchymynion. Dylid cwblhau'r adolygiad cychwynnol erbyn Tach 2017 a dylid adolygu taliadau bob blwyddyn wedi hynny.	Canolig	£2k	le	2029	CSC

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 2: DARPARU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN EANG</b>					
<b>B. CYNHYRCHU MAP DIGIDOL DIFFINIOL</b>					
<b>Cam Gweithredu 21:</b> Parhau i weithio tuag at 100% archwiliad o fap digidol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (CAMS) trwy gynnal adolygiad parhaus o haen Hawliau Tramwy Cyhoeddus ddigidol.	Canolog	£15k	le	2024	CSC
<b>NOD 2: DARPARU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN EANG</b>					
<b>C. FFYRDDD COLL</b>					
<b>Cam Gweithredu 22:</b> Ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd ar gyfer Gorchmynion Addasu i ychwanegu Hawliau Tramwy hanesyddol heb eu cofrestru at y Map a Datganiad Diffiniol fel mater o flaenoriaeth.	Uchel	£10k	le	2026	CSC
<b>NOD 3: SICRHAU BOD CYFLEOEDD ERAILL AR GYFER CAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. PARCIAU CEFN GWLAD</b>					
<b>Cam Gweithredu 23:</b> Bydd CSC yn parhau i hyrwyddo Parciau Gwledig y Cyngor yn gyfleusterau i'w mwynhau gan y cyhoedd	Uchel	£2k	le	2029	CSC CNC



Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 3: SICRHAU BOD CYFLEOEDD ERAILL AR GYFER CAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. CEFN GWLAD AGORED</b>					
<b>Cam gweithredu 24:</b> Sicrhau bod yr holl fannau mynediad cyhoeddus a gynhelir neu wedi'u gwella i flociau o dir mynediad yn cynnwys arwyddion yn dangos y symbolau mynediad cenedlaethol.	Isel	£1k	le	2029	CSC, CNC Fforwm Mynediad Lleol Grwpiau Defnyddwyr
<b>NOD 3: SICRHAU BOD CYFLEOEDD ERAILL AR GYFER CAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. ARDALOEDD PICNIC A GWARCHODFEYDD NATUR</b>					
<b>Cam gweithredu 25:</b> Gofalu am y safleoedd picnic a'r gwarchodfeydd natur presennol sydd dal yng ngofal yr awdurdod lleol / tîm mynediad i gefn gwlad a gofalu y gwneir trefniadau cynnal a chadw cadarn er mwyn sicrhau bod yr holl safleoedd yn parhau i fod mewn cyflwr da.	Canolig	£15k	le	2024	CSC Partneriaid

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 3: SICRHAU BOD CYFLEOEDD ERAILL AR GYFER CAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. TEITHIO LLESOL</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 26:</b> Cynorthwyo'r tîm Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd yn y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw llwybrau beiciau yn unol â Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin a'r Ddeddf Teithio Llesol.	Canolig	£100k	le	2021/2024	CSC, LIC Sustrans Grwpiau Defnyddwyr Tifeddianwyr
<b>CAM GWEITHREDU 27:</b> Cynnig cyngor rheolaidd i'r tîm Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd ar gynlluniau sy'n cael eu datblygu o dan y Ddeddf Teithio Llesol a/neu'r Strategaeth Cerdded a Beicio.	Canolig	£1.5k	le	2024	CSC LIC Sustrans Grwpiau Defnyddwyr

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 3: SICRHAU BOD CYFLEOEDD ERAILL AR GYFER CAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD</b>					
<b>A. ARFORDIR A CHOEDWIGAETH</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 28:</b> Gweithio gyda mudiadau partner a rhanddeiliaid perthnasol i gynnig cynifer o gyfleoedd mynediad i arfordir a choedwigaeth i gynifer ag y bo modd o grwpiau defnyddwyr, gan wneud ymdrechion i wella mynediad i bawb a dangynrychiolir mewn rhannau eraill o'r rhwydwaith mynediad.	Uchel	£2k	le	2024	CSC, CNC Rheolwyr Coedwigaeth Breifat Stad y Goron Preifat
<b>CAM GWEITHREDU 29:</b> Cynnwys mewn gwaith cyhoeddusrwydd pa ddarnau o goedwigaeth ac arfordir mynediad agored sydd ar gael i ba grwpiau defnyddwyr.	Canolig	£1k	le	2022	CSC CNC

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 4: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R HOLL BARTÏON PERTHNASOL SYDD Â DIDDORDEB I SICRHAU GWELL CYFLEUSTERAU O RAN MYNEDIAD I GEFN GWLAD A. HYRWYDDO PARTNERIAETHAU</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 30:</b> Parhau i gynnal arolygon rhagweithiol o'r rhwydwaith mynediad fesul cymuned ar y cyd â chynghorau lleol a grwpiau gwirfoddol.	Canolig	£30k	le	2024	CSC Cynghorau Tref a Chymuned Cerddwyr Lleol Gwasanaeth Cymunedol
<b>CAM GWEITHREDU 31:</b> Parhau i hyrwyddo partneriaethau gyda chynghorau cymuned, tîrfeddianwyr a sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wella mynediad i gefn gwlad.	Uchel	£5k	le	2022	CSC, FIMLI Cynghorau Tref a Chymuned CNC Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
<b>CAM GWEITHREDU 32:</b> Sicrhau cyllid a.106 ar gyfer gwelliannau i Hawliau Tramwy a mynediad i gefn gwlad er mwyn diwallu'r anghenion a gynhychir gan ddatblygiadau newydd.	Uchel	£2k	le	2024	CSC Datblygwyr



Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<p><b>CAM GWEITHREDU 33:</b></p> <p>Parhau i weithio gyda chynlluniau amaeth-amgylchedd er mwyn sicrhau gwelliannau hirdymor a gwneud gwaith gorfodaeth i'r rhwydwaith mynediad.</p>	Canolig	£10k	le	2024	CSC CNC LIC
<p><b>CAM GWEITHREDU 34:</b></p> <p>Parhau i weithio ar y cyd i hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus trwy gysylltiadau gyda darparwyr trafniadaeth gyhoeddus e.e. teithiau cerdded trên a/neu deithiau cerdded bws.</p>	Canolig	£4k	le	2026	CSC Darparwyr Trafniadaeth
<p><b>CAM GWEITHREDU 35:</b></p> <p>Parhau i weithio gyda'r BHS a grwpiau marchogaeth ceffylau eraill i wella darpariaeth farchogol, gan gynnal gwybodaeth ymarferol am y Concordat rhwng CNC a'r BHS a chydweithio gyda mudiadau gyrru oddi ar y ffordd fel y TRF a Tread Lightly er mwyn nodi cyfleoedd gyrru oddi ar y ffordd yn y Sir.</p>	Uchel	£4k	le	2021	CSC BHS TRF Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd Tread Lightly

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 4: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I SICRHAU GWELL CYFLEUSTERAU O RAN MYNEDIAD I GEFN GWLAD</b>					
<b>B. GWIRFODDOLWYR</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 36:</b> Gwneud cymaint o ddefnydd ag y bo modd o grwpiau gwirfoddol lleol er mwyn paratoi ar gyfer a darparu rhaglenni gwelliannau a chynnal a chadw ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.	Uchel	Hyd at £50K	le	2021	CSC, CNC Grwpiau Defnyddwyr Y Cerddwyr Cadwch Gymru'n Daclus Cymoni eich Cymuned
<b>NOD 5 – HYRWYDDO – CYNNAL A GWELLA YSTOD AC ANSAWDD GWYBODAETH GYHOEDDUS, FYDD AR GAEL YN EANG</b>					
<b>MEWN FFURFIAU PRIODOL</b>					
<b>A. CYFFREDINOL</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 37:</b> Gweithio gydag adrannau perthnasol ac asiantaethau i wella cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad i bobl yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd.	Canolig	£5k	le	2024	CSC Partneriaid

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/ I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<b>NOD 5 – HYRWYDDO – CYNNAL A GWELLA YSTOD AC ANSAWDD GWYBODAETH GYHOEDDUS, FYDD AR GAEL YN EANG MEWN FFURFIAU PRIODOL B. DEUNYDD CYHOEDDUSRWYDD</b>					
<b>CAM GWEITHREDU 38:</b> Darparu deunydd hyrwyddo cyfredol ar gyfer Hawliau Tramwy sy'n cael eu hyrwyddo.	Uchel	£3k	le	2021	CSC
<b>CAM GWEITHREDU 39:</b> Ynghyd â thywyslyfrau CNC a'r gwaith hyrwyddo ar-lein ar gyfer LIAC, gofalu fod y wybodaeth ar wefan CSC ar gyfer y darn o LIAC sydd yn Sir Gaerfyrddin yn gyfredol a manwl-gywir.	Uchel	£2k	le	2021	CSC CNC
<b>CAM GWEITHREDU 40:</b> Gofalu fod yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llwybrau'r Sir yn cael eu cadw'n gyfredol trwy adolygiad parhaus.	Uchel	£5k	le	2021	CSC

Camau gweithredu	Blaenoriaeth U/ C/I	Amcangyfrif Cost y flwyddyn	O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)	Targed / Dyddiad	Corff Arweiniol / Partneriaid
<p><b>CAM GWEITHREDU 41:</b></p> <p>Ystyried creu rhagor o Lwybrau'r Sir neu ailgyflwyno teithiau cerdded a hyrwyddwyd yn y gorffennol pan mae pobl leol neu Grwpiau Defnyddwyr yn nodi fod angen hynny a phan fod digon o adnoddau ar gael i greu, gwella, cynnal a chadw a hyrwyddo llwybrau ychwanegol. Wrth wneud hynny, ystyried a oes cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gael.</p>	Isel	£20k	Na	2029	CSC
<p><b>CAM GWEITHREDU 42:</b></p> <p>Gwneud rhagor o welliannau i wefan y Cyngor Sir trwy ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd mynediad i gefn gwlad ac ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Gwella'r wybodaeth gyffredinol ar gyfer y cyhoedd a thirfeddianwyr.</li> <li>Pecynnau cais am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol (hawliadau) a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (dargyfeiriadau, cau llwybrau ac ati)</li> <li>Ffurflenni cwynion ar-lein</li> <li>Cofrestr ar-lein o geisiadau Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus ac adneuron a31(6).</li> <li>Statws gweithredol y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus</li> </ol> <p>Hefyd, gweithio i wella'r wybodaeth am FfMLI Sir Gaerfyrddin trwy:</p>	Canolig	£8k	Na	2025	CSC Fforwm Mynediad Lleol

<p>a. Ychwanegu mwy o wybodaeth gyffredinol  b. Cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd  c. Darparu diweddariadau am gyfarfodydd a lleoliadau</p>	<p><b>Blaenoriaeth U/ C/I</b></p>	<p><b>Amcangyfrif Cost y flwyddyn</b></p>	<p><b>O fewn yr adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys grantiau)</b></p>	<p><b>Targed / Dyddiad</b></p>	<p><b>Corff Arweiniol / Partneriaid</b></p>
<p><b>Camau gweithredu</b></p>					
<p><b>CAM GWEITHREDU 43:</b> Darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch gwell cyfleoedd marchogaeth ceffylau, marchogol a thwrstiaeth yn y Sir i gynrychiolydd lleol y BHS, Carmarthenshire Riders a grwpiau eraill tebyg i'w chynnwys yn eu deunyddiau hyrwyddo. Annog cylchrediad eang i'r deunyddiau hyrwyddo.</p>	<p>Uchel</p>	<p>£2k</p>	<p>le</p>	<p>2022</p>	<p>CSC</p>
<p><b>CAM GWEITHREDU 44:</b> Darparu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd ar gyfer pobl a chanddynt symudedd cyfyngedig ac amhariadau eraill ar gyfer grwpiau fel Cynghrair Anabled Sir Gaerfyrddin i'w chynnwys yn eu deunyddiau hyrwyddo. Annog cylchrediad eang i'r deunyddiau hyrwyddo.</p>	<p>Uchel</p>	<p>£2k</p>	<p>le</p>	<p>2022</p>	<p>CSC Partneriaid</p>
<p><b>CAM GWEITHREDU 45:</b> Hyrwyddo manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd cerdded, marchogaeth a beicio trwy raglenni gweithgareddau a digwyddiadau mewn parciau gwledig, strategaeth cerdded a beicio CSC a strategaeth farchogol arfaethedig CSC.</p>	<p>Uchel</p>	<p>£4k</p>	<p>le</p>	<p>2025</p>	<p>CSC</p>